CYNGOR

DYDD IAU, 26 IONAWR 2023

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Ahmed, Dilwar Ali, Ash-Edwards, Berman, Boes, Bradbury, Bridgeman, Brown-Reckless, Burke, Carr, Carter, Chowdhury, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ferguson-Thorne, Gibson, Goodway, Green, Gunter, Henshaw, Hinchey, Hopkins, Humphreys, Hunt, Jenkins, Jones, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kaaba, Lancaster, Latif, Lay, Lent, Lewis, Lister, Littlechild, Livesy, Lloyd Jones, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Moultrie, Naughton, Owen, Palmer, Jackie Parry, Reid-Jones, Robinson, Robson, Sangani, Sattar, Shimmin, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Huw Thomas, Thomson, Lynda Thorne, Waldron, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Bowen-Thomson. Byddai'r Cynghorydd Joel Williams yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod.

2 : DATGAN BUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

3 : COFNODION

Cymeradwywyd bod cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022 a chyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2022 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan yr Arglwydd Faer.

4 : CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

*Howard Kilvington i'r Cynghorydd De'Ath, yr Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth a Chynllunio Strategol*
A all yr Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth a Chynllunio Strategol gynnig unrhyw welliant i amlder y bysus a'r llwybrau o Ddraenen Pen-y-graig i ganol y ddinas, drwy ailsefydlu'r gwasanaeth bws ar hyd Heol Orllewinol y Llyn a Phlas Mackintosh, a ddiddymwyd yn 2019. Collwyd y gwasanaeth o blaid cyfuno â llwybr presennol drwy Lakeside a Heol Wellfield a Heol Albany; ac mae'r gostyngiad o 50% o'r amserlen yn sgil hyn yn creu anghyfleustra mawr i drigolion ardal o faint sylweddol, a allai achosi pobl i newid i ddefnyddio'r car.

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Croeso i Gyngor Caerdydd Mr Kilvington. Rwyf eisoes wedi dweud yn y Siambr hon fy mod yn cydymdeimlo â phobl sy'n byw mewn ardaloedd fel Cyncoed, â phobl yng ngogledd y ddinas, â phobl yn ardaloedd y gorllewin. Mae angen i'r gwasanaeth bws fod yn well ac yn fwy dibynadwy, ac rwyf wir yn gwerthfawrogi pam eich bod am ofyn

cwestiynau imi am y gwasanaeth bws dinesig. Fodd bynnag, er bod Cyngor Caerdydd yn un o gyfranddalwyr Bws Caerdydd, cwmni preifat ydyw.Nid oes gennyf unrhyw ddylanwad ar ei lwybrau na'i ddull o weithredu. Yn wir, mae cyfreithiau mewn grym i atal cynghorau rhag rheoli gwasanaethau bws. Y rheswm pam bod y cwmni wedi dod i'r penderfyniad yr ydych chi'n cyfeirio ato yn 2019 yw'r ffaith nad oedd y llwybr yn fasnachol hyfyw, felly roedd yn rhaid iddynt ei ailgyfuno mewn modd a oedd yn fwy cynaliadwy'n ariannol. Fel awdurdod lleol, ychydig iawn iawn o arian sydd gennym i ddarparu cymhorthdal ar gyfer llwybrau sydd eu hangen am resymau cymdeithasol; mae'r arian hwnnw wedi'i ymrwymo'n llwyr o hyn ymlaen. Mae lefelau gwasanaeth bws yn dal heb ddychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu llawer iawn o gymhorthdal i'r gwasanaeth. Nid oes sicrwydd o gwbl ynghylch pa gyllid fydd ar gael ar ôl mis Mawrth. Mae'n gyfnod gwirioneddol anodd i'r diwydiant bysus yn gyffredinol. Rwy'n siŵr nad dyma'r ateb yr oeddech chi'n gobeithio amdano, ond rwyf wedi rhoi disgrifiad gonest o'r sefyllfa yr ydym ynddi.

*Cwestiwn atodol – Mr Kilvington*
Deallwn fod gan Gyngor Caerdydd ddyhead i fod yn Ddinas Oed Gyfeillgar; onid yw'r Aelod Cabinet felly'n cytuno y dylai fod yn flaenoriaeth annog preswylwyr i ystyried y gwasanaeth bws fel y dewis cyntaf i fynd o amgylch y ddinas os ydynt am gyrraedd rhywle yn gyflym ac ar amser, yn unol â Mesur Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru? Ar hyn o bryd, yn rhannau allweddol o Heol Orllewinol y Llyn, Plas Mackintosh a Heol Shirley, yn ogystal â rhannau o Gyncoed a Rhodfa Celyn yn Lakeside, nid oes unrhyw wasanaeth bws ar gael, sy'n broblem i'n cymdogion hŷn, yn enwedig y rhai hynny nad oes ganddynt unrhyw ffordd arall o fynd o le i le. Mae grŵp lleol wedi bod yn mynd ati'n frwd i gysylltu â rheolwyr Bws Caerdydd a swyddogion gweithredol Dinas Caerdydd ynghylch y sefyllfa hon, ac wedi cynnal cyfarfod mewn neuadd eglwys leol, a ddenodd dros 130 o breswylwyr.

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Diolch, Arglwydd Faer. Nid wyf yn anghytuno â chi Mr Kilvington, ond mae angen i ddau beth ddigwydd er mwyn gwella gwasanaethau bws yng Nghaerdydd. Un: mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth ail-reoleiddio ddiwedd y flwyddyn hon, a fydd yn rhoi rhywfaint o reolaeth inni dros drefniadau'r gwasanaethau bws. A dau: mae angen mwy o arian arnom i gael mwy o wasanaethau, a hynny'n amlach. Rydym wedi amlinellu nifer o opsiynau yn ein Papur Gwyn ar Drafnidiaeth, ac rwy'n mawr obeithio y bydd eich cynghorwyr lleol yn cefnogi'r cynigion hynny pan gânt eu cyflwyno. Diolch.

*Adam Johannes i'r Cynghorydd Thorne, Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau*
Yn 2018-19, benthycodd bron i 91,000 o drigolion Caerdydd, tua chwarter poblogaeth ein dinas, eitem o lyfrgell yn y ddinas. Os byddwn yn buddsoddi mewn llyfrgelloedd yn lle cwtogi'r gwasanaethau hynny, maent yn parhau i fod ymhlith y gwasanaethau cyhoeddus mwyaf poblogaidd sy'n cael eu defnyddio fwyaf a'u hoffi fwyaf. Dengys tystiolaeth o rannau eraill o'r DU fod torri amseroedd agor a chynnig lefel is o wasanaeth yn aml yn achosi i breswylwyr wneud llai o ddefnydd o'u llyfrgelloedd. A yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw waith ymchwil i asesu sut y gallai cwtogi amseroedd agor effeithio ar ffigurau defnydd llyfrgelloedd? I'r gwrthwyneb, a yw'r Cyngor wedi archwilio'r manteision i breswylwyr os bydd llyfrgelloedd ar agor am gyfnodau hirach; er enghraifft, os ydynt ar agor gyda'r nos?

*Ymateb – Cyng Thorne*

Diolch, Mr Johannes, a diolch am eich cwestiwn. Rwy’n gwerthfawrogi’n llwyr y safbwyntiau rydych chi wedi'u mynegi yn eich cwestiwn, ac yn deall effaith gadarnhaol ein hybiau a'n llyfrgelloedd ar gymunedau ledled Caerdydd. Mae ein hybiau a’n llyfrgelloedd yn cynnig ystod lawn o ddarpariaeth llyfrgell yn ogystal â mynediad at lawer o wasanaethau'r Cyngor a phartneriaid, gan gynnwys: tai; budd-daliadau; cyngor am arian; gwasanaethau I Mewn i Waith; cyfleoedd dysgu; digwyddiadau cymunedol; gwasanaethau ieuenctid; a mentrau iechyd a llesiant. Er hynny, y gwir anffodus yw fod y Cyngor yn wynebu sefyllfa eithriadol o heriol o ran y gyllideb ar hyn o bryd.
Mae’r ymgynghoriad ar y gyllideb yn parhau i fod ar agor hyd ddydd Sul yma, felly nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch pa gynigion arbed a gaiff eu gweithredu. Mae'r gwasanaeth hybiau a llyfrgelloedd yn monitro nifer yr ymwelwyr a'r llyfrau a gaiff eu rhoi ar fenthyg ar draws ein 21 o hybiau a llyfrgelloedd; a byddwn yn mabwysiadu dull cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth os bydd angen lleihau amseroedd agor. Byddwn yn gwneud pob ymdrech u liniaru unrhyw effaith negyddol ar ein gwasanaethau.

Mae’r rhan fwyaf o’n hybiau a’n llyfrgelloedd eisoes ar agor tan 7pm un diwrnod yr wythnos, i gynnig hyblygrwydd i’n cwsmeriaid. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid hyn, ac nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod angen gwneud mwy. Rwy'n croesawu eich adborth, a bydd yn cael ei ystyried cyn gwneud y penderfyniad terfynol ar ôl i'r ymgynghoriad cyhoeddus ddod i ben.

*Cwestiwn atodol – Mr Johannes*
Heb yr addysg a roddais i mi fy hun mewn llyfrgell gyhoeddus, ni fyddai unrhyw un fel fi o gefndir mor dlawd a syml wedi cael y dewrder a'r hyder i ofyn cwestiwn o flaen dynion a menywod â'r fath bŵer yn y ddinas. Ond gwyddom fod mwy i lyfrgelloedd nag adeiladau a llyfrau; maent hefyd yn cynnwys llyfrgellwyr a staff llyfrgell wedi'u hyfforddi'n broffesiynol, ac wrth imi siarad â staff y llyfrgelloedd maent yn pryderu'n gynyddol fod mwy a mwy o wirfoddolwyr di-dâl yn cael eu cyflwyno i'n gwasanaeth llyfrgelloedd; ac maent yn teimlo nad oes gan y Cyngor ddealltwriaeth na gwerthfawrogiad gwirioneddol o'u rôl. Hynny yw, gwyddom fod gweithiwr llyfrgell wedi cyflawni hunanladdiad y 2019 ar ôl sgwrs â'r Cyngor....hoffwn glywed beth yw safbwynt y Cynghorydd Lynda Thorne ynghylch yr hyn y mae gweithiwr llyfrgell yn ei wneud; oherwydd pe bai'n deall hynny, nid wyf yn meddwl y byddai'n bleidiol o gwbl i ddarparu ein gwasanaeth cyhoeddus drwy lafur di-dâl.

*Ymateb – Cyng Thorne*
Diolch, Mr Johannes. Gallaf ddweud wrthych mai Caerdydd sydd â’r ffigurau ymwelwyr gorau o blith llyfrgelloedd Cymru; ac er gwaethaf 12 mlynedd o gyni ariannol, nid oes yr un llyfrgell wedi cau. Roedd gennym 21 o lyfrgelloedd ac mae gennym 21 o lyfrgelloedd o hyd, diolch i’n dull arloesol o ddarparu’r gwasanaeth yng Nghaerdydd. Nid yw nifer y llyfrau a gaiff eu rhoi ar fenthyg wedi cynyddu ers newid y ddarpariaeth gwasanaeth llyfrgelloedd i ddefnyddio hybiau a llyfrgelloedd.Serch hynny, rydym wedi cynyddu nifer yr aelodau gweithredol dros y cyfnod hwnnw. Bu newid yn y galw tuag at fformatau digidol dros y pedair blynedd diwethaf hefyd, gyda chynnydd o 186%; ac mae ein darpariaeth ddigidol hefyd wedi denu cynulleidfa llawer ehangach, gan greu cynnydd o 22% yn nifer ein benthycwyr gweithredol. Rydym ni wir yn deall, ac rydw i'n deall, pa mor bwysig yw'r gwasanaeth llyfrgelloedd, a chredaf ein bod yn cyrraedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen; ac mae llawer o’r gwasanaethau rydym yn eu cynnal, fel y digwyddiad darllen llyfr i blant a gynhelir yn ystod gwyliau'r haf, yn wirioneddol bwysig er mwyn cyflwyno llyfrau i bobl ifanc. Felly

gobeithiaf y gallwch weld bod ein gwasanaeth, mewn gwirionedd, o'i gymharu â gweddill Cymru, yn anhygoel. Heb y cyni ariannol, mae'n debyg na fyddem wedi newid. Ond rwy'n meddwl bod y newid yn newid er gwell, gan annog mwy a mwy o bobl i ddod i'n hybiau sydd hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell ar yr un pryd.

*Florian French i'r Cynghorydd Burke-Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau*
Yn sgil llifogydd diweddar o Afon Taf, mae llawer o sbwriel wedi cael ei adael ar hyd glannau'r afon ac yn sownd yn y coed. Beth mae'r Cyngor yn mynd i'w wneud i glirio'r llanast yma?

*Ymateb – Cyng Burke-Davies*
Diolch ichi am eich cwestiwn Florian, a gobeithio eich bod wedi cael croeso mawr yma heddiw. O ddiwedd mis Rhagfyr y llynedd hyd at ganol y mis hwn gwelsom sawl ffrynt tywydd mawr, a ddaeth â gwyntoedd a lefelau sylweddol o lawiad i Gaerdydd. Nid yw hyn yn ddigwyddiad anghyffredin ac mae'r DU yn profi tywydd mwy eithafol o'r natur hwn yn amlach. Ar ben hyn, gan fod dalgylch Afon Taf mor fawr, ac yn ymestyn i 526km sgwâr, mae digwyddiadau glawiad uchel y tu allan i ffiniau'r ddinas yn effeithio ar lifoedd afon Caerdydd, sy'n golygu bod malurion yn cael eu golchi ymhellach i lawr i'n coridorau afon. Caiff llifoedd afon Taf eu mesur gan Gyfoeth Naturiol Cymru, mewn cumecs, sef metr ciwbig fesul eiliad, gydag 1 cumec yn gyfwerth ag un dunnell o ddŵr. I gyfleu maint yr amodau a brofwyd, cyrhaeddwyd y llifoedd afon uchaf ar 12 Ionawr, sef 494 cumecs, sef 494 o dunelli fesul eiliad; yr ail lif uchaf a gofnodwyd ers 2002. Mewn amgylchiadau o'r fath bydd dŵr yn torri dros lannau'r afon, a dyna a ddigwyddodd yn ddiweddar mewn ardaloedd fel Parc Bute, Caeau Pontcanna ac ardaloedd gwyrdd eraill sy'n ffinio ag Afon Taf, gan gynnwys Llwybr Taf. Maent hefyd yn ysgubo lefelau parhaus o falurion i lawr yr afon i mewn i Gaerdydd, y mae'r mwyafrif ohonynt yn cyrraedd y Bae. Mae casglwr malurion wedi'i osod ar Afon Taf ger canolfan hamdden Channel View yn Grangetown, sy'n dal y rhan fwyaf o'r malurion sy'n llifo i lawr yr afon a'u hatal rhag cronni yn y Bae. Fodd bynnag, pan fo llif yr afon yn eithriadol o uchel, gall malurion fynd heibio'r casglwr a chronni yn y Bae a'r cyffiniau, ac ar lannau'r afon. Mae ymgyrchoedd clirio wedi bod ar waith ers mis Rhagfyr, ac amcangyfrifir bod yr amodau a gafwyd yn y cyfnod o ddiwedd Rhagfyr hyd canol mis Ionawr wedi cynhyrchu 210 o dunelli o falurion o ardal y casglwr a'r Bae ei hunain, a bod tua 50% o'r swmp hwn wedi'i symud ymaith hyd yma. I ddangos maint yr her, cyfaint blynyddol cyfartalog y malurion a dynnir o'r ardaloedd hyn yw 440 o dunelli, felly gallwch weld bod cynnydd sylweddol wedi bod yn yr ardal. Rwy'n rhagweld y bydd yr ymgyrch lanhau'n parhau drwy ganol mis Chwefror yn ardal Bae Caerdydd, ein parcdiroedd ac ar hyd y coridorau afon. Bydd ymdrechion y Cyngor yn cael eu cefnogi gan ein rhwydwaith o randdeiliaid, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i Grŵp Afonydd Caerdydd a Cadwch Gymru'n Daclus.

*Cwestiwn atodol – Florian French*
Mae'r rhan fwyaf o'r sbwriel yn cael ei achosi pan fydd carthffosydd yn gorlifo. Beth ydych chi'n ei wneud i atal hyn rhag digwydd yng Nghaerdydd? Pam ydych chi'n caniatáu gorsaf pwmpio carthion ym Mharc Hailey a fydd yn gwaethygu'r broblem?

*Ymateb – Cyng Burke-Davies*
Ni allaf roi ateb penodol ynghylch Parc Hailey oherwydd yr adolygiad barnwrol sydd ar y gweill. Ond o ran yr hyn sy'n cael ei wneud; fel y soniais, rydym yn gweithio gyda phartneriaid. Mae terfyn ar yr hyn y gall y Cyngor ei hun ei wneud; ond rydym yn

gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru; rydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn Cadwch Gymru'n Daclus; Grŵp Afonydd Caerdydd; ac mae darn o waith hefyd i'w gwblhau gan Lywodraeth Cymru hefyd.

*Steph Wilkins i'r Cynghorydd Sangani, Aelod Cabinet Trechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd*
Dydw i ddim yn siŵr sut i ddilyn Flori. Da iawn Flori. Fel sefydliad yn y sector cyhoeddus mae Cyngor Caerdydd yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; ac mewn perthynas â Chymru, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn datgan, 'Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael ei defnyddio i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd, ac mae cyhoeddi asesiadau effaith cydraddoldeb yn arbennig wedi bod o gymorth i ddwyn awdurdodau cyhoeddus i gyfrif am eu penderfyniadau'. Mae'n ofynnol i Gyngor Caerdydd nid yn unig asesu effaith newidiadau i'w gyfleusterau a'i wasanaethau, ond hefyd i ymgynghori â defnyddwyr a grwpiau defnyddwyr a drafodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd i ddangos ei fod wedi gwneud hynny. Sut, pryd ac ymhle y mae Cyngor Caerdydd yn cyhoeddi ei asesiadau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac unrhyw asesiadau effaith cydraddoldeb y mae'n eu cynnal, a phwy sy'n gwneud hynny, a beth yw'r llwybrau llywodraethu o fewn y Cyngor i Llywodraeth Cymru ac i'r cyhoedd ar tryloywder?

*Ymateb – Cyng Sangani*
Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn rhoi ystyriaeth o ddifrif i'w rwymedigaeth o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae asesiadau effaith cydraddoldeb felly'n rhan bwysig o unrhyw gynnig i newid polisi neu wasanaeth a ddatblygir gan y Cyngor. Maent yn helpu i warchod rhag unrhyw wahaniaethu anfwriadol ac yn sicrhau, os canfyddir unrhyw effeithiau negyddol, y gellir ystyried camau lliniaru. Lle bo angen, bydd hyn yn cynnwys ymgynghori ag unrhyw grwpiau yr effeithir arnynt os bydd asesiad effaith y nodi effaith o bwys ar unrhyw un o'r grwpiau demograffig â nodweddion gwarchodedig neu ddefnyddiwr gwasanaeth penodol. Caiff yr asesiad effaith cydraddoldeb wedyn ei gyhoeddi fel atodiad i unrhyw adroddiad cysylltiedig i'r Cabinet. Cyhoeddir holl adroddiadau'r Cabinet o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn cyfarfod cyhoeddus y Cabinet, a gellir eu gweld ar wefan y Cyngor.

*Cwestiwn atodol – Ms Wilkins*
Rwyf wedi bod yn darllen eich Strategaeth Cynhwysiant Cydraddoldeb 2020-24, ac mae llawer o'r cynnwys yn dda; ond nid oes cysylltiad rhyngddi a'r ymgynghoriad ehangach. Er enghraifft, cafodd rhai newidiadau eu cyflwyno i'n parc lleol yn ddiweddar; mae gennym grwpiau o Sgowtiaid, ac mae yna ddyn lleol sy'n gweithio gyda phobl ifanc dan anfantais sy'n defnyddio rhan o'r parc ar gyfer hyfforddi. Nid yw hynny wedi dod i'r amlwg oherwydd diffyg ymgynghori, ac mae'n gyfle rydym yn ei golli, yr agweddau cydraddoldeb a chynhwysiant yn gysylltiedig â hynny. Cefais hyd i hyn ar y wefan sy'n trafod popeth am ddemocratiaeth yng Nghaerdydd:cysylltwch â'ch Cynghorydd lleol - wedi gwneud; ewch i gyfarfodydd cyhoeddus - wedi gwneud; lawrlwythwch ap y Llywodraeth - wedi gwneud; dilynwch Gyngor Caerdydd ar y cyfryngau cymdeithasol - wedi gwneud; cymerwch ran mewn ymgyngoriadau.....Fy nghwestiwn yw, er inni wneud deisebau, mynd i gyfarfodydd cyhoeddus a phob dim, pam ydych chi'n dal i adeiladu ar ein parc?

*Yr Arglwydd Faer*

Gallwn ofyn i'r Cynghorydd Sangani ymateb, ond mae'n debyg bod angen i Aelod Cabinet gwahanol ateb, gan ei fod ychydig yn wahanol i'r cwestiwn gwreiddiol. Gynghorydd Sangani, os ydych chi eisiau…

*Ymateb - Cyng Sangani*
Roeddwn i am ddweud yr un peth. Mae arna i ofn nad yw hynny'n rhan o'm portffolio. Ystyriodd y Cabinet strategaeth eiddo corfforaethol y Cyngor a'i chymeradwyo ym mis Rhagfyr 2021, ychydig cyn imi gael fy ethol yn Gynghorydd; deallaf mai ond un argymhelliad a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn, sef y dylai'r Cyngor gwblhau asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer y strategaeth eiddo corfforaethol. Mae'r Cyngor bellach wedi cwblhau asesiad effaith cydraddoldeb ar gyfer ei strategaeth eiddo corfforaethol, ac mae'r tîm eiddo hefyd wedi derbyn hyfforddiant gan Dîm Cydraddoldeb y Cyngor ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, ac ar gwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb effeithiol.

*Anita Smith i'r Cynghorydd Burke-Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Parciau a Digwyddiadau*
Ar y 3ydd o Hydref 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad fideo yn dweud bod y newid hinsawdd wedi'n gorfodi i ailwerthuso ein perthynas â natur. Mae angen i bob un ohonom feddwl sut y gallwn wneud y dewisiadau gorau er ein budd ni nawr ac yn y dyfodol. Aeth y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd, Julie James AS, ymlaen i egluro mewn datganiad fideo fod angen rhoi terfyn ar ddirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru ac ailgychwyn y broses adfer, gan ddweud bod angen i bobl ddeall yr angen inni wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru; bod angen i bob tirfeddiannwr yng Nghymru feddwl am yr hyn y mae'n ei wneud a derbyn argymhellion yr archwiliad dwfn bioamrywiaeth, a deall yr hyn y mae'n ei olygu iddynt hwy. Mae hi'n mynd yn ei blaen i ddweud, 'Y tu ôl i mi, fe welwch chi ddôl hyfryd, coed hyfryd. Efallai mai'r hyn nad ydych chi'n ei weld yw'r darn o dir prysg ac arno fieri ac ati, sydd yr un mor bwysig i fywyd gwyllt â'r holl rannau hardd.' Mae angen inni ddeall bod mieri, danadl a blerwch yn hanfodol i sicrhau bod infertebratau sy'n fwyd i'r adar yn goroesi. Yn amlwg, cyfrifoldeb y grymoedd mawr yw ymdrechu'n galed i sicrhau bod eu harferion yn dod â natur yn ôl i'n byd. A all yr Aelod Cabinet esbonio cynlluniau Cyngor Caerdydd, gan gynnwys amserlen, yn gysylltiedig â'r archwiliad dwfn bioamrywiaeth, a'r modd y mae'n bwriadu cynnwys grwpiau cymunedol, yn enwedig grwpiau o gyfeillion; ac a wnewch ymrwymo i gadw'r tir prysg sy'n bodoli yn ei barciau?

*Ymateb - Cyng Burke-Davies*
Helo, Anita, mae'n braf eich gweld chi. Gallaf gadarnhau bod y Cyngor yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i gefnogi themâu allweddol ac argymhellion yr archwiliad dwfn o fioamrywiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Hydref y llynedd. Mae'r Cyngor yn adolygu fframwaith polisi cynllunio'r ddinas yn rhan o'r gwaith parhaus i baratoi am y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae hyn yn amserol gan ei fod yn gyfle i ystyried y themâu a'r argymhellion hyn fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y cam nesaf, sef y strategaeth a ffafrir, i'w hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor, yn amodol ar ymgynghoriad, yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn adolygu ei gynllun gweithredu ar gyfer y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, ac ar gyfer yr adolygiad hwn hefyd bydd hi'n bwysig ystyried themâu ac argymhellion archwiliad dwfn Llywodraeth Cymru. Fel y gwyddoch, mae gan y Cyngor rwydwaith wedi'i hen sefydlu o grwpiau cyfeillion a gwirfoddolwyr yr ydym yn cydweithio'n agos â nhw i hyrwyddo a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys

cyfeillion Parc Hailey, ac rwy’n ymwybodol o'ch gwaith caled chi a'ch cyd-gyfeillion, a'r cyfraniad sylweddol rydych chi wedi'i wneud dros amser er mwyn hyrwyddo a gwella bioamrywiaeth. Mae'r Bartneriaeth Natur Leol hefyd yn chwarae rhan hollbwysig wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid a bwrw ymlaen i weithredu; ac roeddwn yn arbennig o falch bod un o'r argymhellion o'r archwiliad dwfn bioamrywiaeth yn trafod buddsoddi mewn partneriaethau natur lleol a darparu ar eu cyfer i gefnogi cydweithredu partneriaethol i adfer natur ar lefel leol. Bydd rhwydweithiau presennol y Cyngor yn cael eu defnyddio er mwyn cyflawni'r argymhelliad i adeiladu sylfaen gref ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, drwy feithrin capasiti, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau.Yn hyn o beth, ac er gwaethaf yr heriau o flaen yr agenda adfer natur, rwy'n credu'n wirioneddol fod y Cyngor mewn sefyllfa dda i ymwreiddio'r amcanion a osodwyd a'i fod, o ran egwyddor, wedi ymrwymo i gadw prysgdiroedd yn ein parciau.

*Cwestiwn atodol - Mrs Smith*
Gan gadw mewn cof y dystiolaeth o'r manteision llesiant a geir o fod yn gysylltiedig â natur mewn ardal fel ward etholiadol Ystum Taf, lle ceir lefelau uchel o amddifadedd lluosog a pherygl llifogydd, a wnaiff Cyngor Caerdydd weithio mewn partneriaeth â chyfeillion Parc Hailey a phreswylwyr lleol a defnyddwyr y parciau, i hyrwyddo a buddsoddi fel bo modd i Barc Hailey fod yn safle ymgeisiol ar gyfer y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, a sut y bydd yn gwneud hynny? Ar y parc hwn mae gennym suddfan bresennol, gwobr Baner Werdd anrhydeddus a choridor afon dŵr croyw, sy'n ei gysylltu â mannau gwyrdd eraill pwysig y mae angen eu gwarchod rhag datblygiadau fel yr orsaf pwmpio carthion.

*Ymateb – Cyng Burke-Davies*
[DVX31] I'r graddau sydd o fewn fy ngallu yn rhinwedd fy swydd, rwy'n cefnogi hynny.

5 : DEISEBAU

Cafwyd y deisebau canlynol:

| Cyflwynwyd gan | Nifer y Llofnodion Perthnasol | Natur y Ddeiseb |
|---|---|---|
| Cyng Emma Reid-Jones | 52 | Cael gwared â Mastiau 5G Gerddi Beaufort a Heol Llys-faen, Caerdydd |
| Cyng Andrea Gibson | 108 | Gwrthwynebu Gorchymyn Cadw Coed 22/02949/WTTPP a gofyn am gael gwared â'r llwybr peryglus (Coetir sy'n ffinio â Heol y Maendy, Gwaelod-y-Garth. |

6 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Ers cyfarfod diwethaf y Cyngor ddechrau mis Rhagfyr, mae’r Arglwydd Faeres a minnau wedi bod mewn llawer o ddigwyddiadau Nadolig ar draws y Ddinas, o Dongwynlais i Eglwys Norwyaidd Bae Caerdydd. Rydym hefyd wedi cefnogi digwyddiadau eraill elusennol y Nadolig, fel Hosbis y Ddinas, Tenovus a Chyngerdd Flynyddol y Gwasanaethau Brys yng Nghadeirlan Llandaf.

Rydym hefyd wedi ymweld â llawer o ysgolion, grwpiau cymunedol a chartrefi gofal drwy gydol y mis, pob un yn ddigwyddiad hyfryd, lle cawsom groeso cynnes. Rwy'n dechrau dod yn arbenigwr ar "yr Arglwydd Faeryddiaeth, y cadwynau a hanes Caerdydd ers 1868".

Dyma rai ymweliadau, digwyddiadau a sgyrsiau eraill nodedig a gafwyd dros yr ychydig wythnosau diwethaf: Gwobrau Bright Sparks" Gwasanaethau Plant Caerdydd gyda'r Cynghorwyr Ash Lister a Sarah Merry; Gwobrau Deall Anabledd; Cyngerdd Cerddorfa Ieuenctid Caerdydd a'r Fro; Cofeb Diwrnod Aids y Byd yn theatr yr Amgueddfa Genedlaethol; Cynhaliwyd 4 Seremoni Dinasyddiaeth Brydeinig (tua 120 o bobl) yma yn Siambr y Cyngor; Mosg Madina yn Cathays gydag addolwyr a'r Cyng Ali Ahmed; Agor fflatiau a thai ynni isel Passivhaus cyntaf Cyngor Caerdydd yn Aspect Place, Y Mynydd Bychan. Rhoddodd yr Arweinydd, y Cyng Thorne a chyd-aelodau lleol, y Cynghorwyr Sangani ac Ash Edwards hamperi Nadolig i deuluoedd newydd a oedd eisoes wedi symud i mewn o fewn dyddiau i gwblhau'r cynllun.

Mae'n Ddiwrnod Cofio'r Holocost yfory, sef diwrnod rhyngwladol i gofio dioddefwyr yr Holocost a hil-laddiadau eraill. Mae'r diwrnod yn gyfle i anrhydeddu'r goroeswyr a chofio am y rhai a gollodd eu bywydau. Fe'i cynhelir ar Ionawr 27 bob blwyddyn, sef diwrnod rhyddhau carcharorion Auschwitz.
Eleni, yn dilyn cyngor gan Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost, ac yn sgil cynnydd sylweddol mewn Covid, y Ffliw a firysau eraill y gaeaf, mae digwyddiadau lleol wedi cael eu haildrefnu i fod yn rhai rhithiol, gyda negeseuon a gwasanaethau wedi'u recordio ymlaen llaw. Bydd neges YouTube gan y Prif Weinidog, Arweinydd Cyngor Caerdydd a mi fy hun ar gael o 11am bore yfory. Mae Diwrnod Cofio'r Holocost yn gyfle gwerthfawr i'n hatgoffa nad gweithredoedd o'r gorffennol yn unig yw erledigaeth a gwahaniaethu, ac mai'r tristwch yw eu bod yn dal i fod o'n hamgylch heddiw. "Gyda'n gilydd, rhaid inni barhau i herio rhagfarn, sefyll yn gadarn yn casineb, a chodi llais yn erbyn erledigaeth."

Ac i gloi, rhaid imi hysbysu'r Cyngor yn ffurfiol am farwolaeth un o'n cynghorwyr diweddar a chyn Arglwydd Faer Anrhydeddus Caerdydd, y Cyng Keith Hyde.
Bu Keith yn cynrychioli Ward Pentwyn o 2004 hyd 2017, ac roedd yn adnabyddus am ei waith caled fel cynghorydd lleol. Bu hefyd yn aelod hirsefydlog a gweithgar o Gymdeithas Peirianneg Model Caerdydd, wedi'i lleoli ym Mharc y Mynydd Bychan. Roedd ganddo ef, ynghyd â'i wraig Anne, ddiddordeb brwd yn y maes. Cafodd y Cyng Hyde ei ethol yn Arglwydd Faer Caerdydd yn 2010-11, ac roedd yn bresennol mewn llawer o ddigwyddiadau pwysig fel Prif Ddinesydd Caerdydd, gan gynnwys ymweliadau Brenhinol a digwyddiadau pwysig yn y Brifddinas.
Rwyf wedi adnabod mab Keith, Steve, ers blynyddoedd lawer, ond dim ond rhwng 2012 a 2017 y bûm yn gwasanaethu ar y meinciau hyn ochr yn ochr â Keith Hyde cyn iddo ymddeol. Rhoddodd wasanaeth diffuant i'n Dinas ac roedd yn ŵr hynaws. Ymwelais â gwraig Keith, Anne, yn ei chartref yr wythnos hon, a mynegi cydymdeimlad dwysaf o'r Siambr hon.

7 : ADRODDIAD SAFONAU A MOESEG BLYNYDDOL 2021-2022

Cynigiodd Jason Bartlett yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am waith y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn ystod 2021-2022.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn CYTUNO i nodi'r adroddiad.

8 : DATGANIADAU'R CABINET

Datganiad yr Arweinydd
Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau ynghylch:
- Cronfa Codi'r Gwastad

Datganiad Tai a Chymunedau
Ymatebodd y Cynghorydd Thorne i gwestiynau ynghylch:
- Y Rhaglen Adeiladu Tai
- Cwblhau Llys Adam
- Cynlluniau Byw yn y Gymuned
- Problemau tamprwydd a llwydni mewn Tai Cyngor
- Hyb Rhiwbeina
- Diogelwch Cymunedol

Datganiad Buddsoddi a Datblygu
Ymatebodd y Cynghorydd Goodway i gwestiynau ynghylch:
- Diweddariad Economaidd

Datganiad y Gwasanaethau Cymdeithasol
Ymatebodd y Cynghorydd Mackie i gwestiynau ynghylch:
- Rhyddhau o'r Ysbyty

Datganiad Trechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd
Ymatebodd y Cynghorydd Sangani i gwestiynau ynghylch:
- Gwasanaethau Negeseuon Prawf HIV
- Brechiadau COVID-19 a Ffliw

Ymatebodd y Cynghorydd Bradbury i gwestiynau ynghylch:
- Gwasanaeth Cynghori I Mewn i Waith – Cymorth i Bobl Dros eu Hanner Cant

Datganiad Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol
Ymatebodd y Cynghorydd De'Ath i gwestiynau ynghylch:
- Gwaith Priffyrdd
- Grant Cynllun Bws Trydan Caerdydd
- Map Rhwydwaith Teithio Llesol Caerdydd
- Tai Amlfeddiannaeth (HMOs)

Datganiad y Dirprwy Arweinydd ac Addysg
Ymatebodd y Cynghorydd Merry i gwestiynau ynghylch:
- Gweithredu Streic
- Presenoldeb yn yr Ysgol

Datganiad Newid Hinsawdd
Ymatebodd y Cynghorydd Wild i gwestiynau ynghylch:
- Amddifynfeydd rhag llifogydd ym Mharc y Rhath
- Llifogydd mewn ardaloedd llai
- Draenio

- Caerdydd Un Blaned

Datganiad Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau- Dim cwestiynau

Datganiad Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
Ymatebodd y Cynghorydd Weaver i gwestiynau ynghylch:

- Ymgynghoriad ar Gyllideb 2023/24 - Setliad Dros Dro

Band Eang Lleol

9 : CWESTIYNAU AR LAFAR

*Cynghorydd Williams i'r Cynghorydd Merry*
Mae plant a phobl ifanc ym Mhontprennau a Phentref Llaneirwg ac ar draws Caerdydd yn cael eu gorfodi i dalu er mwyn teithio ar fws i'r ysgol uwchradd ac yn ôl, er eu bod yn byw bron i 3 milltir o'r ysgolion hyn. Ar hyn o bryd mae disgyblion sy'n byw dros 3 milltir o'u hysgol uwchradd yn derbyn cludiant cyhoeddus â chymhorthdal i'r ysgol. Mae llawer o deuluoedd yn methu fforddio tocynnau bws costus, gan olygu bod plant a phobl ifanc yn gorfod treulio hyd at 2 awr bob dydd yn cerdded i'r ysgol ac adref. Yn ddiweddar, cefais wybod am achos lle'r oedd person ifanc dros 16 oed yn byw dros 3 milltir o ysgol uwchradd ei ddalgylch yn gorfod talu £380 y flwyddyn i fynd i ysgol ei ddalgylch ar y bws ysgol. Dyma un o blith llawer o achosion lle mae teuluoedd yn wynebu biliau costus. A wnaiff yr Aelod Cabinet ymrwymo i adolygu'r trefniadau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus â chymhorthdal i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau blaenoriaeth i ddiogelwch disgyblion, a bod disgyblion sy'n byw ychydig llai na'r trothwy 3 milltir a'r rhai sy'n mynd i'r 6ed (ac sydd dros 3 milltir o'u hysgol uwchradd) yn gallu manteisio ar drafnidiaeth gyhoeddus â chymhorthdal?

*Ymateb – Cyng Merry*
Byddaf bob amser yn cynghori Aelodau â phryderon ynghylch etholwr neilltuol i gysylltu â mi'n uniongyrchol, er mwyn cadarnhau eu bod wedi manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael. Mae'r argyfwng costau byw presennol wedi effeithio ar lawer o deuluoedd ac mae'r Cyngor yn goruchwylio'r gwaith o ddosbarthu grantiau gwerth bron i £2.2 filiwn i leihau'r baich ar yr aelwydydd mwyaf anghenus. Gyda holl gyllidebau'r Cyngor dan bwysau difrifol ar hyn o bryd, a'r pwysau cynyddol o ran costau o fewn y gyllideb bresennol ar gyfer cludiant cartref i ysgol prif ffrwd ac ADY, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod ei ofynion statudol yn cael eu cyflawni, a bod y bobl fwyaf anghenus yn derbyn y drafnidiaeth arbenigol angenrheidiol. Hoffwn atgoffa'r Cyng Williams fod gennym fwlch o £23 miliwn yn y gyllideb ar hyn o bryd, ac y byddai'n rhaid i unrhyw benderfyniad i ehangu darpariaeth trafnidiaeth am ddim gael ei weithredu'n gyfartal ar draws y dinas, a bod yn gynaliadwy dros amser. Ni fyddai hynny ond yn deg i'r teuluoedd dan sylw. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'r meini prawf pellter y mae angen i ddisgyblion oedran ysgol statudol eu bodloni i fod yn gymwys i gael cludiant am ddim, a dyna'r meini prawf pellter statudol y mae'r Cyngor yn eu defnyddio. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ystyried a ddylid diwygio'r rhain, a byddwn yn croesawu hynny. Byddwn hefyd yn croesawu unrhyw ddarpariaeth newydd ar gyfer pobl ifanc, o dan unrhyw gynllun ehangach i ystyried trafnidiaeth yn y ddinas. Hefyd, rwy'n credu bod Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn briodol i blant dros 8 oed allu cerdded 3 milltir i'r ysgol.

*Cwestiwn Atodol – Cyng Williams*
Rwy'n siŵr y bydd llawer o bobl ifanc a'u teuluoedd yn siomedig o glywed ymateb Dirprwy Arweinydd y Cyngor. [DVX31] Does dim diben dweud bod gennych fwlch o

£23.5 miliwn yn y gyllideb, a'n bod wedyn yn gallu cael hyd i £100 miliwn yn ychwanegol ar gyfer canolfan gynadledda Russell Goodway ym Mae Caerdydd, sydd ymhell ar ei hôl hi. Does neb yn coelio hynny. Felly dyma ofyn y cwestiwn atodol. Pam na wnewch chi ymrwymo i sicrhau (Torri ar draws).

*Yr Arglwydd Faer*
Eisteddwch i lawr, Gynghorydd Williams, mae pwynt o drefn wedi'i alw.

*Pwynt o drefn – Cyng Goodway*
A yw'n rhan o'r drefn i Aelod o'r Cyngor hwn gamarwain yr Aelodau'n fwriadol?

*Yr Arglwydd Faer*
A gawn ni gadw at y cwestiwn perthnasol a'r datganiad, yn hytrach na gwyro i fyd datblygu economaidd. Gofynnwch gwestiwn atodol.

*Cyng Williams*
Diolch Arglwydd Faer, rwyf wedi cael fy nghyhuddo o gamarwain y Siambr, rwy'n hapus i gael fy nghywiro, ond mae'r adroddiadau yn y cyfryngau'n honni bod Cyngor Caerdydd yn wynebu £100 miliwn o gostau ychwanegol.

*Cyng Williams*
Wel, rydym ni wedi clywed gan yr Aelod Cabinet yn ei hateb fod diffyg o £23.5 miliwn yn y gyllideb, felly'r hyn rydw i am ei wybod gan yr Aelod Cabinet yw, os oes gennym filiynau o bunnoedd ar gyfer prosiectau eraill pam na allwch ymrwymo i sicrhau diogelwch plant a phobl ifanc, sicrhau y gall ein plant a'n pobl ifanc gyrraedd yr ysgol yn ddiogel, gan wella drwy hynny ein ffigurau presenoldeb, nad ydynt wedi dychwelyd eto i'r lefelau cyn Covid?

*Ymateb – Cyng Merry*
Roeddwn i'n mynd i ddweud bod Aelod yr Wrthblaid yn dal heb ddeall y gwahaniaeth rhwng gwariant refeniw a gwariant cyfalaf. Ac mae hynny'n drueni mawr iawn achos mae'r mater dan sylw yn llawer rhy ddifrifol i gael ei drafod fel hyn. Y gwir yw mai tair milltir yw'r pellter sydd wedi cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd lawer. Wrth gael trothwy, bydd gennych chi bob amser bobl sydd ychydig o dan y trothwy hwnnw. Dyna yw pwrpas y trothwy. Nawr, rwy'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trothwy hwnnw; ac rwyf hefyd wedi datgan yr hoffwn sicrhau, pan fyddwn yn gallu ystyried adolygiad ehangach o drafnidiaeth, bod anghenion pobl ifanc yn gadarn ar yr agenda bryd hynny.

*Cyng Berman i'r Cyng Burke*
Ac ystyried y byddai'r cynigion dan ystyriaeth ar gyfer gweinyddiaeth y Cyngor o Neuadd Dewi Sant yn golygu cynyddu capasiti lleoliad wedi'i ddylunio i ddal ychydig llai na 2,000 o bobl i ddal hyd at 2,500 o bobl; ac ystyried y digwyddiad trasig diweddar yn Academi O2 Brixton a redir gan yr Academy Music Group (AMG) pan gafodd dau o bobl eu gwasgu i farwolaeth mewn torf ym mis Rhagfyr, mae'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch wedi lansio ymchwiliad i honiadau o lygredd yn y lleoliad (gan gynnwys honiadau bod swyddogion diogelwch cael eu llwgrwobrwyo i ganiatáu mynediad i bobl heb docynnau); ac ystyried bod trwydded y lleoliad cerddoriaeth yn Llundain gan Gyngor Lambeth yn dal i fod wedi'i hatal yn dilyn digwyddiad mis Rhagfyr, a'i bod newydd gael ei hatal am gyfnod pellach o dri mis: ydych chi'n dal i feddwl bod AMG yn sefydliad addas i gymryd drosodd y gwaith o redeg ein neuadd gyngerdd genedlaethol?

*Ymateb – Cyng Burke*
Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r ymchwiliad parhaus i'r digwyddiadau trasig y tu allan i academi O2 Brixton ym mis Rhagfyr. Mae gan AMG 24 o leoliadau ar draws y DU ac mae ganddynt record diogelwch rhagorol. Mae'r Academy Music Group wedi'i ffurfio o dri o hyrwyddwr digwyddiadau cerddoriaeth a gweithredwyr lleoliadau cerddoriaeth mwyaf blaenllaw'r byd. Maen nhw'n gyfrifol am gyflwyno rhai o'r digwyddiadau cerddoriaeth mwyaf ar y blaned, gan reoli rheoli hyd at 100 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn drwy eu lleoliadau a'u digwyddiadau cyfunol. Mae’r digwyddiadau yn Academi Brixton i raddau helaeth iawn wedi'u cyfyngu i'r lleoliad hwnnw, yn seiliedig ar yr amgylchiadau neilltuol sy'n destun ymchwiliad priodol, ac mae'r ymchwiliad hwnnw'n mynd y tu hwnt i weithredwr y lleoliad ac yn cynnwys yr heddlu lleol. Wrth gwrs, mae'r digwyddiad yn pwysleisio pwysigrwydd trefniadau effeithiol i reoli iechyd a diogelwch, yn enwedig wrth ymdrin â thorfeydd mawr. Mae Caerdydd yn mabwysiadu ymagwedd partneriaeth gref wrth reoli digwyddiadau, a bydd yn parhau i wneud hynny yn Neuadd Dewi Sant. Heb os, bydd y digwyddiadau trasig yn Llundain yn miniogi'r ffocws ar sicrhau'r safonau uchaf wrth ddarparu, cynnal a monitro iechyd a diogelwch drwy warchodaeth AMG ar y lleoliad.

*Cwestiwn atodol – Cyng Berman*
Sut y gallwch chi ddweud bod ganddynt record diogelwch rhagorol ar ôl digwyddiad lle collodd dau o bobl eu bywydau'n drasig. Mae'n debyg mai'r hyn rwyf am ei wybod yw, pa gamau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd i roi ystyriaeth ddigonol i addasrwydd AMG fel sefydliad a fydd yn rhedeg Neuadd Dewis Sant, ers y digwyddiadau trasig hyn? Allwch chi roi rhywfaint o fanylion inni am yr hyn sydd wedi cael ei archwilio, a pha gasgliadau y mae'r Cyngor wedi dod iddynt.

*Ymateb – Cyng Burke*
Mae’r cwestiwn a godwyd gennych yn un dilys. Dydw i ddim yn meddwl mai dyma'r fforwm i drafod hyn. Heb ddymuno ceisio dysgu pader i berson - rydych chi wedi bod yn gwneud y gwaith yma am gyfnod llawer hirach na mi - rwy'n ofni bod peryg ichi droi'r mater yn bêl droed wleidyddol. Mae ymchwiliad ar y gweill - peidiwch ag ysgwyd eich pen ataf - collodd dwy wraig eu bywydau, ac mae ymchwiliad ar y gweill. Byddai’n amhriodol imi wneud sylw ar hyn o bryd, nes inni wybod yr holl ffeithiau. Pan fydd y ffeithiau’n hysbys, gallwn gynnal trafodaethau ag AMG a sicrhau bod mesurau priodol ar waith ar gyfer Dewi Sant. Rwy'n gobeithio'n fawr na wnaiff hyn droi'n fater gwleidyddol, oherwydd yr hyn a ddigwyddodd yn Academi O2 Brixton. Ond fel y dywedais, mae ganddynt 24 o leoliadau ar draws y DU nad ydynt wedi profi'r problemau hyn, felly mae'r gyfres o amgylchiadau a gafwyd yn Academi Brixton yn neilltuol iawn, ac mae angen inni wybod y manylion cysylltiedig, ac nid wyf am wneud unrhyw sylwadau pellach ynghylch hynny.

*Cyng Livesy i'r Cyng Burke*
Rhaid i Amgueddfa Caerdydd fodloni amodau penodol er mwyn bod yn gymwys i dderbyn statws Achrediad Amgueddfeydd – a ddarperir drwy gynllun partneriaeth y DU a gynhelir gan Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru. Mae’r amodau hyn yn cynnwys bod yn “endid parhaol gyda phwrpas hirdymor” ac lefelau isafswm o fynediad i'r cyhoedd at yr arddangosfeydd. Mae cynigion y Cyngor yn bygwth gallu'r amgueddfa i gyrraedd y meincnodau hyn, ac yn sgil hynny, i godi arian o grantiau elusennol - lle mae angen statws achrediad yn aml. Yn y bôn – sut y byddai unrhyw gynllun symudol yn y dyfodol yn cael ei ariannu, ac o ystyried mai'r prif bryder yw ei

bod yn anodd cael hyd i enghreifftiau o amgueddfeydd dros dro llwyddiannus, pam bod hynny'n cael ei ystyried neu ei gynnig/

*Ymateb – Cyng Burke*
Sefydlwyd ein bod wedi cael cynnydd gwell na'r disgwyl mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru, gyda'n datganiad dros dro gohiriedig, ond y bydd yn dal angen inni ganfod £23.6 miliwn i fantoli'r llyfrau. Mae hyn yn ychwanegol at fwlch traean biliwn o bunnoedd rydym wedi gorfod ymdrin ag ef ers 2010. Bob blwyddyn rydym yn wynebu dewisiadau llai a llai dymunol. Nid wyf yn anghytuno ag unrhyw deimladau rydych wedi'u mynegi ynghylch Amgueddfa Caerdydd; er hynny, rydym wedi wynebu penderfyniadau caled, ac un ohonynt fyddai cau'r amgueddfa. Rydym yn ymdrechu i osgoi'r senario hwnnw; yn lle hynny rydym yn ymchwilio i ddichonoldeb modelau gweithredu eraill a fydd yn caniatáu i'r amgueddfa weithredu ar gost is. Rydym wedi bod yn ddiolchgar am yr holl gyngor a'r ymatebion a gawsom hyd yma yn rhan o'r ymgynghoriad parhaus ar y gyllideb nad yw'n dod i ben tan ddydd Sul. Cyn gynted ag y byddwn wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r opsiynau sydd ar gael inni byddwn yn gorffen ein trafodaethau ac yn cadarnhau'r camau nesaf.

*Cyng Humphreys i'r Cyng Thomas*
Er fy mod yn ddiolchgar am y cyfraniad o £50 miliwn gan Lywodraeth y DU sy'n cyd-fynd â'r £50 miliwn a ymrwymwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Llinell y Metro i Butetown, a all yr Arweinydd roi'r newyddion diweddaraf am ein tri cais arall i Gronfa "Codi'r Gwastad"?

*Ymateb – Cyng Thomas*
Rwyf yr un mor gyffrous â chi ynghylch y newyddion diweddaraf am gronfa Codi'r Gwastad. Gallaf gadarnhau bod Caerdydd wedi cyflwyno dau gais i Gylch 2 Cronfa Codi'r Gwastad. Roedd yr ail un i ehangu tir a seilwaith y cyhoedd yn ardal ehangach Glanfa Iwerydd; roedd hwnnw'n aflwyddiannus. Roeddem cyn hynny wedi cyflwyno cais i Gylch 1 er mwyn sicrhau buddsoddiad i Farchnad Caerdydd, a bu hwnnw hefyd yn aflwyddiannus. Fe welwch, er ein bod yn dathlu llwyddiant pwysig y cais sy'n gysylltiedig â Cledrau Croesi, fod hyn yn dipyn o loteri. Wrth edrych ar y darlun mewn ardaloedd eraill, yn enwedig yn Lloegr, ac o bosib y ffocws neilltuol ar dde ddwyrain Lloegr; mae rhywun yn dechrau meddwl a oes rhyw wleidyddiaeth wrth wraidd y modd y dyfernir ceisiadau i Gronfa Codi'r Gwastad. O ran y tri chais a gyflwynwyd hyd yma - dyna'r diweddaraf.

*Cwestiwn atodol – Cyng Humphreys*
Byddai'r Parth Ieuenctid a gynigiwyd yn fy ward i yn Nhreláí yn trawsnewid bywydau pobl ifanc yn Nhreláí, Caerau a'r Tyllgoed, tair ardal ac ynddynt bocedi mawr o amddifadedd. Ac ystyried mai dyma yw pwrpas Codi'r Gwastad yn ôl Llywodraeth y DU, pa sicrwydd a roddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y byddai'r prosiect hwn yn derbyn ystyriaeth ffafriol?

*Ymateb – Cyng Thomas*
Cwestiwn da iawn, Gynghorydd Humphreys, oherwydd fel y dywedoch mae'r Parth Ieuenctid yn Nhreláí, a fyddai'n gwasanaethu ardal lawer ehangach na'ch ward leol yn unig, yn brosiect rydym yn cynnig ei gyflwyno i Gronfa Codi'r Gwastad, yn y trydydd cylch cyllido. Dyma brosiect arwyddocaol a fyddai'n hynod o werthfawr i bobl ifanc Treláí, y Tyllgoed, Caerau ac ardal ehangach Gorllewin Caerdydd. Byddaf yn ymuno â chynghorwyr eraill ar ymweliad â chyfleuster tebyg yn Llundain yn hwyrach eleni i weld sut maent yn gweithredu yno, ac ochr yn ochr â hyn mae achos busnes

wedi cael ei gomisiynu gan ragweld trydedd cylch o Gronfa Codi'r Gwastad. Ond unwaith eto, wrth edrych ar y cynghorau y dyfarnwyd cyllid iddynt yng Nghylch 1, yr hyn sy'n fy nharo yw na wnaethant lwyddo i sicrhau cyllid yng Nghylch 2, er y dywedwyd wrthynt yn benodol y dylent wneud cais am gyllid yng Nghylch 2. Byddaf felly'n codi'r mater gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac yn gofyn am sicrwydd y gallwn gymhwyso a bod mewn sefyllfa i lwyddo mewn trydydd cylch o geisiadau. Ond rwy'n ymwybodol iawn hefyd fod yna gynghorau eraill a fu'n llwyddiannus yng Nghylch 1, ac a ofynnodd am y cyngor hwnnw, a gafodd eu cynghori i ymgeisio, ac nad oeddent yn llwyddiannus. I mi, mae hynny'n tanlinellu pam bod Cronfa Codi'r Gwastad yn system amherffaith, ac rwy'n edrych ymlaen i'w gweld yn cael ei diwygio yn y dyfodol o dan Lywodraeth Lafur y DU.

*Cyng Robson i'r Cyng Thomas*
A wnaiff yr Arweinydd esbonio'r broses a ddefnyddiwyd i nodi'r cais i Gronfa Codi'r Gwastad?

*Ymateb – Cyng Thomas*
Gyda'r holl gwestiynau hyn am Gronfa Codi'r Gwastad, rwy'n dechrau edifar ein bod wedi ennill. Jôc oedd hynny. Fe gofiwch fod y cynigion cychwynnol i'w cyflwyno i Gronfa Codi'r Gwastad eu cymeradwyo gan y Cabinet ar 17 Mehefin 2021, a'u bod wedyn wedi cael eu diwygio gan y Cabinet ar 10 Mawrth y llynedd. Fel yr amlinellwyd wrth gyflwyno'r adroddiadau hyn yn y cyfarfodydd hynny, caniateir un cais fesul etholaeth Seneddol fesul cylch, a rhaid iddo fod yn seiliedig ar brosiectau sy'n creu buddsoddiad mewn diwylliant a chanol trefi, ac i adfywio trafnidiaeth. Ceir hyd i fanylion proses Cylch 2 Cronfa Codi'r Gwastad ar wefan Llywodraeth y DU, ond cafodd y strategaeth yr oeddem ni'n ei chynnig ar gyfer cyflwyno ein cynigion i Gronfa Codi'r Gwastad ei hystyried gan y Pwyllgor Craffu a'u cefnogi ar y pryd. Felly proses ailadroddus a oedd yn cynnwys y drefn graffu briodol.

*Cwestiwn atodol - Cyng Robson*
Mewn perthynas â chwestiwn blaenorol, sonioch eich bod o'r farn fod gwleidyddiaeth yn gysylltiedig â Chronfa Codi'r Gwastad. Efallai eich bod yn iawn. Dyma'r wleidyddiaeth: y ffaith yw fod y Llywodraeth Geidwadol mewn gwirionedd wedi buddsoddi £50 miliwn yn y brifddinas hon yng Nghymru i adeiladu cyswllt allweddol i'r Cledrau Croesi. Roeddech chi'n croesawu'r cyhoeddiad bod y cais hwn wedi llwyddo. Roeddech chi yno yn ystod y tynnu lluniau, a oedd yn wych, fod yr arian hwn yn dod i mewn i'r ddinas. Yn fy marn i, y wleidyddiaeth mewn gwirionedd yw na fyddai Llywodraeth Cymru erioed wedi darparu'r £100 miliwn rydych chi'n ei drafod ar ei phen ei hun, fyth bythoedd, i brifddinas Caerdydd; ac a fyddech chi'n cytuno bod gan y Cyngor hwn lawer o waith i'w wneud o hyd gyda Llywodraeth Cymru i osgoi'r agwedd 'unrhyw le ond Caerdydd' rydym yn aml yn ei weld o du Bae Caerdydd?

*Ymateb – Cyng Thomas*
Efallai'n wir eich bod yn gywir Gyng Robson, y byddai wedi bod yn anodd inni sicrhau'r swm hwnnw yn ei gyfanrwydd gan Lywodraeth Cymru, am y rheswm syml bod Llywodraeth Cymru'n cael ei hamddifadu o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth y DU. Ac yn arbennig, wrth inni siarad yn benodol am seilwaith priffyrdd, penderfyniad gwarthus Llywodraeth Geidwadol y DU i beidio dyfarnu symiau canlyniadol Barnett yn sgil prosiect High Speed 2; prosiect y dangoswyd y bydd yn cael effaith economaidd negyddol ar Gaerdydd a de ddwyrain Cymru, ac er hynny mae Llywodraeth Geidwadol y DU yn honni bod hwn yn brosiect a fydd o fudd i Gymru, er

ei fod yn peri anfantais i ddeuparth poblogaeth Cymru. Dyna £5 biliwn o symiau canlyniadol Barnett y mae Cymru yn eu colli oherwydd penderfyniadau eich plaid chi.

*Cyng Carter i'r Cyng De'Ath*
Yn sgil cau Parcio a Theithio Dwyrain Caerdydd i ganol y ddinas, a yw'r Cyngor hwn yn dal wedi ymrwymo i sicrhau Caerdydd Wyrddach?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Yn bendant, Gynghorydd Carter, ac mae Parcio a Theithio yn dal i fod yn rhan bwysig iawn o'r gymysgedd o drafnidiaeth. Rydym yn parhau i gefnogi defnydd llwyddiannus o Barcio a Theithio Dwyrain Caerdydd gan bobl sy'n teithio'n ôl a blaen i Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae'r cyfleuster Parcio a Theithio sy'n gwasanaethu canol y ddinas wedi cael ei adleoli i'r Bae gyda'r bwriad y bydd hynny'n annog mwy o ddefnydd ohono, yn unol â'r Parcio a Theithio yn Neuadd y Sir ar gyfer diwrnodiau digwyddiad sy'n gweithredu'n llwyddiannus iawn. Yn y tymor hwy, ceir mwy o gapasiti Parcio a Theithio i rai sy'n teithio i mewn ac allan o ganol y ddinas o'r dwyrain, drwy ddefnyddio datblygiad arfaethedig Parcffordd Caerdydd.

*Cwestiwn atodol – Cyng Carter*
Rydym yn aml yn ein cymharu ein hunain â dinasoedd eraill ledled y DU, ond os edrychwch chi ar ddinasoedd eraill anaml iawn y gwelwch chi ddinas fodern heb gyfleuster Parcio a Theithio sy'n gweithredu yn y dydd ar ddiwrnodiau gwaith. Ac eto does dim un gennym bellach. Mae gennym gyfleuster pwrpasol ar hyn o bryd, ond ychydig iawn yr ydym wedi'i wneud i annog pobl i'w ddefnyddio. Mae gennym apiau i gyfeirio pobl i feysydd parcio yn nghanol y ddinas, ond yn y rhan fwyaf o gyfeiriadau at gyfleuster Parcio a Theithio ar y cyfryngau cymdeithasol trafodir pam na all pobl ei ddefnyddio am ei fod wedi cau. Gynghorydd, yn hytrach nag aros blynyddoedd am Barcio a Theithio posibl ym Mharcffordd Caerdydd, pam na allwch wneud hyn yn fwy atyniadol nawr, a lleihau tagfeydd yn ein dinas, lle mae'r traffig ar stop, ar unwaith?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
A bod yn onest, rwyf o'r farn mai'r broblem yw fod Parcio a Theithio Dwyrain Caerdydd yn y lleoliad anghywir. Mae'r ffigurau'n siarad drostynt eu hunain. Cafwyd dros 200 o deithiau car bob dydd i Ysbyty Athrofaol Cymru ac yn ôl, ond llai na 50 o deithiau o Ddwyrain Caerdydd i ganol y ddinas. Gwn eich bod yn bryderus iawn ynghylch y broblem hon, a bu swyddogion yn cyfarfod â rhai o'r cynghorwyr lleol ychydig wythnosau'n ôl; dwn i ddim a oeddech chi yno. Os hoffech chi gwrdd â mi i drafod eich pryderon, gallwn wneud hynny. Rwy'n meddwl bod y dystiolaeth yn siarad drosti ei hun yn anffodus.

*Cyng Livesy i'r Cyng De'Ath*
Mae rhannau o'r lonydd beicio ar hyd Heol Llantrisant ar hyn o bryd yn dameidiog a heb eu cysylltu. Mae rhan allweddol i'r de o ddatblygiad Plasdŵr o dan gyffordd Radur/Plasdŵr i lawr at orsaf Danescourt a Llandaf ar hyd ffordd gul â phafin gwael ar un ochr. Pryd yr eir i'r afael â hyn, gan gysylltu beicwyr sy'n cymudo yn ddiogel â gweddill y rhwydwaith beicio neu drenau.

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Mae gennyf ateb hynod o amleiriog i'ch cwestiwn felly ni allaf ond ymddiheuro amdano ymlaen llaw. Mae’r cytundeb Adran 106 ar gyfer caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad Plasdŵr yn sicrhau cyllid ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth i feicwyr a cherddwyr ar hyd coridor Heol Llantrisant, y tu hwnt i’r fan lle mae’r llwybr cyd-

ddefnydd presennol yn gwyro oddi wrth Heol Llantrisant ar hyd Heol Aradur. Mae'r cytundeb Adran 106 yn sicrhau cyllid i sefydlu llwybr beicio/cerdded a rennir rhwng Heol Aradur a chyffordd ddwyreiniol Rhodfa Danescourt a Heol Llantrisant. Byddai angen integreiddio'r cyswllt â'r cynlluniau signalau cyffordd a fwriedir wrth ddwy gyffordd Rhodfa Danescourt â Heol Llantrisant, a gyllidir hefyd drwy gytundeb Adran 106. O gyffordd ddwyreiniol Rhodfa Danescourt, bydd y llwybr beicio/cerdded a rennir yn cysylltu â chyfleuster beicio ar wahân sydd wedi'i gynllunio ar hyd rhan o Heol Llantrisant, rhwng Rhodfa Danescourt a chyffordd Heol Llantrisant â Stryd y Bont, a gyllidir hefyd drwy'r cytundeb Adran 106. Mae tîm trafnidiaeth y Cyngor yn datblygu cynlluniau ar gyfer adran gyswllt y llwybr beiciau drwy ardal Llandaf yn rhan o'r rhaglen llwybrau beic. Felly, yn ei hanfod, bydd y llwybr wedi'i gysylltu; bydd llawer o hyn yn dibynnu pryd y caiff rhai o bwyntiau rhyddhau'r cytundebau Adran 106 hynny eu sbarduno. Rwy'n gobeithio bod hynny'n gwneud synnwyr

*Cwestiwn atodol – Cyng Livesy*
Rwy'n dyfalu mai'r hyn rydych yn ei olygu wrth ddweud pwynt rhyddhau yw nifer y tai a adeiledir?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Ceir pwyntiau amrywiol wrth i'r broses gynllunio fynd rhagddi pan gaiff yr arian hwnnw ei ryddhau. Byddaf yn gofyn i'r swyddogion roi briff ichi ynghylch y dyddiadau pan fydd hynny'n digwydd, a bydd hynny, gobeithio, yn gwneud y cyfan ychydig yn gliriach i bawb.

*Cyng Moultrie i'r Cyng Merry*
Mae meysydd chwarae bwytadwy yn cael eu cyflwyno ar draws ysgolion Caerdydd. A allai'r Aelod Cabinet gadarnhau pa ysgolion sy'n gwneud hyn ym Mhentwyn a Llanedern?

*Ymateb – Cyng Merry*
Mae pedair ysgol yn ward Pentwyn naill ai wedi cael neu wrthi'n cael meysydd chwarae bwytadwy yn rhan o'n rhaglen a'n partneriaeth â Trees for Cities. Y rhain yw Ysgol Hollies, a gwblhawyd ym mis Medi 2021; ac Ysgol Gynradd Llanedern, a gwblhawyd fis diwethaf. Mae meysydd chwarae bwytadwy ac iach hefyd yn cael eu gosod yn Ysgol Gynradd Bryn Celyn ac Ysgol Gynradd Pen y Groes, a byddant yn cael eu gosod ym mis Mawrth eleni.

*Cwestiwn atodol – Cyng Moultrie*
Wrth i'r ysgolion hyn ddechrau cynnal meysydd chwarae bwytadwy, beth yw eu manteision i'r plant sy'n eu defnyddio?

*Ymateb – Cyng Merry*
Rwy'n meddwl bod pwysigrwydd cael ardaloedd tyfu o fewn ein hysgolion, yn enwedig ysgolion yng nghanol y ddinas, i ddisgyblion ymhlith y darnau mwyaf trylwyr o ymchwil sydd wedi'u cyflawni. Mae manteision neilltuol y cynllun hwn yn deillio o'r gwaith partneriaeth â Trees for Cities, a Thyfu Caerdydd hefyd. Bydd y staff addysgu yn derbyn cefnogaeth barhaus i ddechrau er mwyn sefydlu'r gerddi'n iawn. Ceir llai o wybodaeth am y budd ychwanegol a geir yn sgil hyn i lesiant disgyblion, ac ystyried yr anawsterau y mae llawer o disgyblion wedi'u cael wrth geisio ymaddasu i'r ysgol ar ôl Covid, er y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn gweld hynny fel canlyniad naturiol. Mae'r elusen hefyd yn datblygu deunyddiau addysgu sy'n cydblethu â chwricwlwm newydd Cymru, ac mae enghreifftiau o ysgolion eraill wedi cynnwys gwaith pontio'r

cenedlaethau, neu deuluoedd yn dod i mewn a hynny'n arwain at sgyrsiau ynghylch coginio a diet iach; ac mae'n ddiddorol, yn nwy o'n hysgolion cynradd lle gosodwyd caeau chwarae bwytadwy yn ddiweddar, tynnodd Estyn sylw atynt yn ei adroddiad arolygu, fel enghraifft o arfer da.

*Cyng Robson ar ran y Cyng Cowan i'r Cyng Wild*
Faint mae'r arbrawf casglu gwastraff newydd wedi costio i drethdalwyr hyd yma, a beth fu cyfanswm y gost goramser (tybed allwch chi roi'r cyfraddau goramser fesul awr)?

*Ymateb – Cyng Wild*
Yn amlwg, mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i gasglu gwastraff pobl o'u heiddo, ac erbyn hyn mae gennym bellach ddyletswydd statudol i fodloni cyfraddau ailgylchu uchelgeisiol iawn. Cynlluniwyd yr arbrawf newydd i fod o fewn ffiniau'r gyllideb o £12.8 miliwn yr ydym yn ei neilltuo bob blwyddyn, ac nid ydym yn disgwyl iddo gael unrhyw effaith neilltuol ar gostau goramser. Ond rydych chi'n gywir wrth ddweud bod rhai costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r arbrawf; bu'n rhaid gwneud llawer o waith paratoi a phrynu llawer o offer newydd, ac mae'n amlwg ei bod hi'n gymhleth cyfrifo beth yw'r gost ychwanegol yn union o gymharu â'r hyn y byddai wedi'i gostio fel arall. Ond yr amcangyfrif rwyf wedi'i dderbyn yw oddeutu £400,000 o gyllid eleni, a hoffwn bwysleisio eto fod hyn o fewn yr amlen gyllidebol. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn disgwyl peth arbedion; mae'r bagiau gwyrdd rydym yn eu cwtogi, fel y dywedwyd o'r blaen, yn costio bron i filiwn o bunnoedd i'r Cyngor bob blwyddyn. Yr ystyriaeth ehangach o amgylch hyn yw'r economi gylchol - cymerwch wydr fel enghraifft. Ar hyn o bryd mae'r gwydr yn cael ei falu ac yn gymysg â deunyddiau eraill; mae'n costio £35 y dunnell inni gael gwared ohono. Os gallwn gael y gwydr hwnnw'n glir ac wedi'i wahanu, byddwn yn cael £35 fesul tunnell i'w fuddsoddi. Felly pan fydd yr holl bethau hynny'n dwyn ffrwyth, sef y cynllun sydd gennym, dylai fod o gymorth i'n cyllidebau, a chreu economi fwy cylchol ar yr un pryd.

*Cwestiwn atodol - Cyng Robson*
Un peth am yr arbrawf yw bod llawer o newid wedi digwydd a llawer o darfu ar y bobl hynny yn yr ardaloedd prawf, a chafwyd achosion lle'r aeth cerbydau yn ôl, hyd yn oed os yw hynny o fewn yr amlen fforddiadwyedd. Felly er mwyn atal mwy o darfu a dryswch, a wnewch ymrwymo i sicrhau bod casgliadau gwastraff du yn parhau i gael eu cynnal bob pythefnos, ac nad ydynt yn newid i gasgliadau bob tair wythnos?

*Ymateb – Cyng Wild*
Hoffwn ddiolch i chi a'ch cyd-aelodau o fewn y ward. Rwy'n gwybod eich bod wedi cymryd rhan weithgar yn yr arbrawf a throsglwyddo gwybodaeth, ac mae'n wirioneddol bwysig bod cynghorwyr yn gwneud hynny: gwasanaethu eu hetholwyr; ceisio codi cyfraddau ailgylchu, ac mae'n rhaid imi ddweud bod y chwarter hwn yn edrych yn addawol iawn ar hyn o bryd. Felly rydym yn gobeithio, gyda'r strategaeth newydd hon, fod hyn yn mynd i wella ein perfformiad yn aruthrol, o bosib fel mai ni yw'r ddinas graidd sydd yn perfformio orau yn y DU; achos dyna'r safle yr ydym yn wirioneddol am ei gyrraedd. Ond o ran y casgliad 3 wythnosol, rhaid inni roi'r cyfle i'n swyddogion wneud hynny, os oes angen. Efallai y bydd yn rhaid inni gyrraedd targedau statudol; ceir dirwyon enfawr os na wnawn hynny, ac rydym am iddynt gael yr holl offer a'r holl sgiliau inni allu bod ar ein gorau, a dyna yw ein dyled i bobl y ddinas hon. Ac os yw hynny'n golygu bod angen iddynt addasu rhai o'r pethau eraill, gan newid y symiau a gesglir gennym, dylem eu galluogi i gynnig hynny fel opsiwn. Ar hyn o bryd rydym yn dal i weithio ar y casgliadau bob pythefnos; rydym yn

gweithio ar y newidiadau eraill o amgylch y ddinas; neu'r hybiau ailgylchu newydd rydym yn eu sefydlu; y rhannau eraill o'r strategaeth sy'n gweithio'n dda; beth am inni gyflawni'r rheiny. Ond ar hyn o bryd mae'r sefyllfa'n edrych yn dda o ran ein ffigurau.

*Cyng Molik i'r Cyng Mackie*
Pryd y bydd Llafur Cymru yn cydnabod ac yn datgan bod Brexit a cholli rhyddid i symud wedi arwain at sefyllfa enbyd ac wedi dwysáu argyfwng y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghaerdydd a ledled Cymru?

*Ymateb – Cyng Mackie*
Er fy mod yn falch o ddweud bod y cyflenwad gofal yng Nghaerdydd yn dda ar hyn o bryd, erys pryderon o hyd ynghylch gallu darparwyr i recriwtio a chadw staff. Credir yn gyffredinol nad oedd y sector gofal yng Nghaerdydd mor ddibynnol ar weithlu'r UE â rhannau eraill o'r wlad. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod Brexit wedi achosi effaith anuniongyrchol wrth i nifer fawr o swyddi gwag ymddangos yn y sector manwerthu a lletygarwch, a rhai gweithwyr gofal ddewis newid i weithio yn y sectorau hynny. Fel y mae'r Aelodau'n gwybod, mae gweithwyr gofal cofrestredig bellach yn derbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol yn dilyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â hynny, mae ei Hacademi Gofalwyr Caerdydd wedi helpu 122 o bobl i gael swydd yn y sector gofal. Mae rhai darparwyr gofal yn y DU hefyd wedi cyflogi gweithwyr gofal o wledydd tramor y tu hwnt i ffiniau'r DU, drwy'r cynllun noddi fisas. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r darparwyr gofal i ddeall y sefyllfa a sut y gallwn fynd i'r afael â'r broblem o recriwtio a chadw gweithwyr yn ein sector.

*Cwestiwn atodol – Cyng Molik*
Onid yw'n ddiddorol, bob tro y byddwch chi'n siarad am heriau'r gweithlu a'r rhesymau a allai fod wrth wraidd hynny, rydyn ni'n dra aml yn cael yr ateb bod popeth yn gweithio'n weddol dda yng Nghaerdydd. Ac wedyn rydych chi'n gweld yr hyn a welsom gyda'r aelod staff y soniais amdano'n gynharach. Dyw pethau ddim yn gweithio; ym mhob un adroddiad a gyflwynir ynghylch gofal cymdeithasol, nodir yr her i'r gweithlu o hyd fel rheswm pendant pam nad yw ein gofal cymdeithasol yn gweithio. Mae'n bwysig inni gyfaddef hyn. Felly fy nghwestiwn oedd: rydym wedi gweld gweithluoedd amrywiol yn mynd ar streic ynghylch cyflog, ynghylch yr amgylchiadau a'r amgylchedd gwaith y maent yn delio â nhw. Mae'n debyg mai ein gweithwyr gofal ni yw'r rhai sy'n wynebu cyflog isel iawn…

*Cyng Molik*
Mae cynaliadwyedd y gweithlu hwn wedi bod yn broblem barhaus, rydych chi wedi dweud hynny yn eich ymateb hefyd. Felly mae'n bwysig inni gydnabod bod y gweithlu hwn yn cael ei dalu'n well a bod ei amgylchedd gwaith yn well, a chydnabod y rhesymau pam ein bod yn colli'r gweithlu. Ni fyddwn yn gallu sicrhau cynaliadwyedd nes ichi gyfaddef hynny.

*Cyng Molik*
Mae'n golygu cydnabod y broblem - dyna oedd fy nghwestiwn cychwynnol. Er mai'r ymateb yw nad oes problem mewn gwirionedd, rydych chi'n dal i fynd yn eich blaen i ddweud ein bod wedi colli ein gweithlu; allwn ni ddim cynnal y gweithlu; mae'r amgylchedd gwaith yn aros yr un peth; mae angen adolygu'r raddfa gyflog…

*Cyng Molik*
Pryd fydd darparwyr gofal y ddinas yn cael cydnabyddiaeth o'u gwaith a'r hyn y maent yn ei haeddu o ran eu hamgylched gwaith a'u cyflog?

*Ymateb – Cyng Mackie*
Credaf ein bod yn cydnabod y gwaith y mae ein darparwyr gofal yn ei wneud, a'n bod yn gwneud yr hyn y gallwn i wella eu gwaith ac i'w helpu hyd y bo modd. Fel y dywedais, does dim prinder yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, am ein bod yn ymdrin â'r broblem. Rydym yn edrych ar wahanol ffyrdd o weithio, fel y gwyddoch, ac yn edrych ar wahanol ffyrdd yr ydym yn darparu gofal, fel rydym wedi'i ddweud o'r blaen, gyda thaliadau uniongyrchol i bobl dderbyn gofal mewn gwahanol ffyrdd sy'n gweddu iddynt yn well, fel rydym wedi'i ddweud o'r blaen. Rydyn ni'n edrych arno drwy'r amser. Dydyn ni ddim yn gorffwys ar ein rhwyfau gan nad oes gennym broblem ar hyn o bryd; rydym yn parhau i fynd i'r afael â'r mater fel y disgrifiais o'r blaen, a byddwn yn parhau i wneud hynny. O ran y cyflog, cafodd y gofalwyr Gyflog Byw drwy Lywodraeth Cymru; hoffem dalu mwy iddynt, wrth gwrs, a byddwn yn parhau i herio hyn. Ond ar y funud, dyna lle’r ydyn ni.

*Cyng Livesy i'r Cyng De'Ath*
Pryd y gallwn ddisgwyl y datganiad yn amlinellu amserlenni ymgynghori ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Rwyf ar ganol pennu hyn yn derfynol gyda swyddogion a chydweithwyr a byddaf yn gwneud datganiad ffurfiol yn fuan iawn.  Byddwn yn dyfalu mai ar ddechrau mis Chwefror y bydd hynny'n digwydd.

*Cyng Thomson i'r Cyng Lister*
A all yr Aelod Cabinet roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Cyngor am y gwaith sy’n cael ei wneud i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd yng ngofal Caerdydd?

*Ymateb – Cyng Lister*
Yn gynharach y mis hwn cymeradwyodd y Cabinet ein Strategaeth Gwasanaethau Plant ddiwygiedig dros y tair blynedd nesaf, a oedd yn anelu i newid y cydbwysedd o ran gofal a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Rydym yn canolbwyntio ar dair agwedd wahanol. Lle, i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y lle iawn; boed hynny gyda'u teulu genedigol, y teulu sydd wedi'u mabwysiadu, teulu maeth neu ofal preswyl. Mae'n golygu sicrhau bod yr opsiynau yno, a'u bod bob amser yn ddiogel Mae'n rhaid inni ystyried hynny fel un o'n prif flaenoriaethau. Drwy hynny rydym yn mynd i weithredu model y lle cywir, sy'n golygu eu bod yn y lle cywir ar yr adeg gywir, ac yn derbyn y lefel gywir o ymyrraeth. Rydym yn parhau i weithio ar brosiect y Llys Cyffuriau ac Alcohol Teuluol, ac wedi gweld rhai canlyniadau da eisoes yn gysylltiedig â hyn. Mae'n bwysig nodi, bu cynnydd o 115% mewn atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant, ond llai na 10% o'r rheiny sydd wedi symud ymlaen i fod yn Blant sy'n Derbyn Gofal, felly rwy'n credu bod hynny'n glod i'r gwaith ataliol rydym yn ei wneud. Rydym yn mynd i ganolbwyntio ar bobl, a thalu teyrnged fel y dywedodd y Cynghorydd Molik, i’r sector gofal, am eu bod yn gwneud gwaith gwych; ond wedyn ein gweithwyr cymdeithasol, ein gweithwyr gofal cartref - maen nhw hefyd gwneud gwaith gwych. Rydym yn bwriadu gweithredu model oedolion y gellir ymddiried ynddynt i wneud yn siŵr ein bod yn rhoi gwaith cymdeithasol darbodus ar waith ledled y ddinas, fel mai ond gweithwyr cymdeithasol sy'n gwneud yr hyn y dylai gweithwyr cymdeithasol ei wneud, a bod y gefnogaeth a gynigir i deuluoedd yn gyson. Yn olaf, er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'r gweithlu hwnnw, rydym yn edrych ar ddatblygu ymarfer: felly mae gennym arweinwyr ymarfer yn eu lle, er mwyn helpu

staff newydd gymhwyso a staff mwy profiadol i barhau i ddatblygu; ac rydym yn edrych ar gyfweliadau cymhellol. A'r hyn sy'n greiddiol i bopeth yr ydym yn ei wneud, ac sy'n rhan o strategaeth ddiwygiedig y Gwasanaethau Plant, yw sicrhau bod llais y plentyn wrth galon popeth a wnawn.

*Cwestiwn atodol – Cyng Thomson*
Ceir cryn ffocws ar wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc sydd yn ein gofal, sy'n gwbl briodol, ac mae hynny'n rhywbeth sy'n gyfrifoldeb i bob un ohonom fel rhieni corfforaethol. Mae hi hefyd yn wirioneddol bwysig sicrhau nad ydym yn rhoi pobl ifanc mewn gofal os na ddylent fod yno. Ac rydych chi wedi sôn rhywfaint am atal; tybed a allwch siarad ychydig mwy am ba mor dda yr ydym am atal pobl ifanc rhag cael eu derbyn i ofal?

*Ymateb – Cyng Lister*
Ydy mae hynny'n waith pwysig iawn; oherwydd pan fydd plentyn yn troi'n blentyn sy'n derbyn gofal, mae'n rhaid i'r penderfyniad hwnnw fod yn iawn i'r plentyn ac i'r teulu, i'w cadw'n ddiogel a chynnig y cyfleoedd gorau iddynt. Mae'n rhaid felly ystyried hynny fel dewis olaf. Mae'n rhai rhoi'r rhan fwyaf o'n sylw i'r gwaith ataliol hwnnw: edrych ar ein gwasanaethau cymorth cynnar pan fo plant yn ifanc iawn; boed hynny'n ddarpariaeth Dechrau'n Deg, yn gymorth drwy'r cyrsiau rhianta rydym yn eu cynnig, neu pan fydd pethau'n troi ychydig yn fwy difrifol ac y bydd angen ymyriad statudol. Dim ond yn gweithio ar y trothwy: cynlluniau gofal a chymorth; cyflwyno ymyriadau gan yr Hyb Ymyriadau; cymorth i deuluoedd; mae llawer o waith yn digwydd. Roeddwn i gyda staff y Gwasanaethau Plant am hanner diwrnod ddydd Mawrth, yn edrych ar y modd yr ydym yn datblygu'r gweithlu, a sut y gallwn eu cefnogi yn y gwaith gwych y maent yn ei wneud; ac roedd yn hyfryd gweld y 135 o sylwadau o ganmoliaeth a gafwyd eleni am y gwaith a wnaeth staff gyda theuluoedd, a hoffwn fynegi a chofnodi fy niolch i'r aelodau hynny o staff.

*Cyng Davies i'r Cyng Wild*
Sut y bydd y Cyngor yn gweithredu i glirio'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd yn ddiweddar?

*Ymateb – Cyng Wild*
Fel y gallwch werthfawrogi, pan geir digwyddiadau llifogydd bydd hynny'n rhoi pwysau sylweddol ar staff y Cyngor; yn ystod y digwyddiad ond hefyd ar ôl y digwyddiad. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith glanhau yn parhau tan ganol mis Chwefror ar gyfer ardal Bae Caerdydd, ein parciau a'r coridorau afon. Ac wrth gwrs, mae hynny oherwydd eu bod yn gwneud llawer o waith clirio ychwanegol ar ben eu dyletswyddau o ddydd i ddydd i gadw'r ddinas yn lân. Rwy'n siŵr y bydd y cynghorydd ac eraill am ymuno â mi i ddiolch i staff y Cyngor fu'n gweithio yn ystod y llifogydd hynny, drwy'r nosweithiau, gyda llawer ohonynt yn gweithio ddwy neu dair noson yn olynol; gwneud eu gorau glas i gadw pethau dan reolaeth, ac ar y cyfan gwnaethant lwyddo yn hynny o beth. Ac rydym hefyd yn wirioneddol ddiolchgar am y rhwydwaith cynyddol o wirfoddolwyr a grwpiau sy'n gweithio'n galed i glirio; rwy'n gwybod bod Afonydd Caerdydd yn brysur iawn bob penwythnos yn rhoi help llaw, yn enwedig o amgylch yr afonydd.

*Cwestiwn atodol – Cyng Davies*
Chewch chi ddim cwyn gen i am staff y Cyngor - maen nhw wedi gwneud gwaith gwych. Roeddwn i am gael cadarnhad ynghylch pwy yn union sy'n gyfrifol am Afon Taf, ac am glirio'r afon honno: oherwydd fel y clywsom yn y cwestiynau cyhoeddus

yn gynharach, mae'r holl falurion sydd wedi bod yn llifo i lawr Afon Taf ac sy'n hongian ar y coed yn edrych yn flêr iawn. Rydyn ni am ailharddu ein dinas, gan ei bod yn weladwy iawn o Lwybr Taf. Felly yn ei hanfod, rhyw fath o gadarnhad ynghylch cyfrifoldeb, a sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda hynny; ond hefyd beth yw'r amserlen wrth geisio mynd i'r afael â'r prosiect penodol hwnnw. Byddwn yn gwerthfawrogi pe bai rhywbeth yn digwydd er mwyn inni allu adfer yr olygfa o Lwybr Taf i'w harddwch naturiol.

*Ymateb – Cyng Wild*
O ran cyfrifoldeb dros y Afon Taf: O ran amddiffynfeydd llifogydd, CNC sy'n gyfrifol am ein prif gyrsiau afon, ein prif nentydd; o ran y clirio, ni sy'n gwneud y gwaith hwnnw; ac fel yr amlinellais yn gynharach yn fy ymateb, byddwn i'n disgwyl i'r gwaith hwnnw fod wedi'i gwblhau erbyn canol mis Chwefror.

*Cyng Taylor i'r Cyng De'Ath*
Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i fynd i'r afael â thagfeydd ar rwydwaith ffyrdd y ddinas?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Mae’r Cyngor yn rheoli tagfeydd bob dydd drwy ystafell reoli’r UTC, yn fwy cyffredinol drwy gyfres o fesurau, y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gyfarwydd i chi: lonydd beiciau, gatiau bysus, cynlluniau llogi beiciau ac ati. Yn y tymor hwy byddwn yn archwilio mesurau fel y Metro ac, wrth gwrs, Cledrau Croesi newydd Caerdydd.

*Cwestiwn atodol – Cyng Taylor*
Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn yr hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â thagfeydd er mwyn rhoi blaenoriaeth i fysiau. Mae nifer o drigolion wedi ysgrifennu dros y misoedd yn pryderu am lwybrau rhif 35, 8 a 9 sy'n mynd drwy Gabalfa. Rydym yn disgwyl newidiadau i'r holl lwybrau hynny, neu i'r rhan fwyaf ohonynt. Gwyddom fod tagfeydd hefyd yn cael yn amharu'n aruthrol ar rwydwaith bysus y ddinas, a’r elfen fasnachfraint a grybwyllwyd gennych yn gynharach mewn ymateb i’r cwestiwn gan aelod y cyhoedd. Mae'n mynd i gymryd blynyddoedd i'w weithredu ac mae'r rhwydwaith bysus yn wynebu anawsterau nawr. Fy nghwestiwn yw: pryd fyddwn ni'n gweld rhaglen buddsoddi cyfalaf gynhwysfawr yn cael ei chynnig i roi'r flaenoriaeth i fysus ar ein rhwydwaith ffyrdd?

*Ymateb – Cyng De'Ath*
Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd ag aelodau uwch o staff Bws Caerdydd;rydym wedi gweithio drwy nifer o enillion a mesurau cyflym y gallwn eu cyflwyno i wneud bywyd yn haws i fysus yn y ddinas, a thros gyfnod y weinyddiaeth byddwn hefyd yn gwneud cyhoeddiadau mwy cynhwysfawr ynghylch sut y gallwn gymryd camau rhwydd i lyfnhau teithiau bysus drwy Gaerdydd.

*Cyng Gibson i'r Cyng Wild*
Mae e-sigaréts tafladwy yn tyfu mewn poblogrwydd. Mae'n gyffredin eu gweld wedi'u taflu ar y stryd ar ôl iddynt gael eu gorffen. A oes gan Gyngor Caerdydd ddull addas o gael gwared â'r e-sigaréts hyn neu eu hailgylchu?

*Ymateb - Cyng Wild*
Er eu bod yn cael eu galw'n e-sigaréts tafladwy, dylid eu hailgylchu ar ôl eu defnyddio. Gellir ailgylchu'r e-sigaréts gydag eitemau trydanol bach yn ein canolfannau ailgylchu, a hefyd eu gollwng yn un o'n 8 ardal ailgylchu cymunedol ar

draws y ddinas. Hefyd, Gynghorydd Gibson, er clod i chi, ac i ddangos ichi eich bod yn cael cyfle i ddylanwadu ar bethau wrth gyflwyno sylwadau i'r Cyngor, doedd y rhain ddim ar ein rhestr A i Y o bethau y gallwch eu hailgylchu; mae'n nhw'n mynd i gael eu hychwanegu am eich bod wedi tynnu ein sylw atynt, felly diolch am ofyn y cwestiwn imi.

*Cwestiwn atodol – Cyng Gibson*
Mae fy nghwestiwn atodol wedi'i ateb felly; oherwydd yr hyn yr oeddwn i am ei wybod oedd, a wnaiff Cyngor Caerdydd hysbysebu i roi gwybod i bobl bod modd ailgylchu'r e-sigaréts hyn, a sut y byddant yn cael eu hailgylchu? Ydyn nhw'n mynd i fod yn rhan o'r economi gylchol, ydych chi'n gwybod sut y bydd hyn yn digwydd?

*Ymateb – Cyng Wild*
Rwy'n credu y byddwn yn gweithio i hyrwyddo hynny, fel y dywedais; awn ati i ddechrau lledu'r gair fel rydym yn ei wneud. O ran sut y cânt eu hailgylchu, nid wyf yn gwybod yr union fanylion, mae'n rhan o'r broses o ailgylchu cyfarpar trydanol bach, yr ydym am i bobl eu casglu ynghyd. Yn syml, rydym yn ceisio cynnwys yr holl gyfarpar trydanol bach yn rhan o'n strategaeth ailgylchu newydd.  Bydd pobl yn dechrau gallu eu rhoi allan; rydym yn gobeithio gallu gwneud hynny ryw ben, ond nid ydym wedi cyrraedd y sefyllfa honno eto. Ond bydd y cyfan yn mynd i mewn; mae'n rhan o'r economi gylchol, os gallwn ei gasglu yn y dull cywir.

*Cyng Chowdhury i'r Cyng Merry*
A wnaiff yr Aelod Cabinet dros Addysg ymuno â mi i longyfarch Ysgol Uwchradd Fitzalan Treganna ar eu canlyniadau rhagorol diweddar unwaith eto?

*Ymateb – Cyng Merry*
Gwnaf yn wir, byddai'n bleser cael llongyfarch disgyblion a staff Fitzalan am eu canlyniadau rhagorol. Rwy'n siŵr na fydd yr Aelod yn gwrthwynebu pe bawn hefyd yn llongyfarch ein holl ysgolion eraill yng Nghaerdydd am eu gwaith yn ystod y pandemig a'r cyfnod adfer, sydd wedi galluogi disgyblion yng nghyfnodau allweddol 4 a 5 i ennill canlyniadau mor wych. Cyfres arholiadau haf 2022 oedd y cyfnod cyntaf o arholiadau ers 2019, ac roedd canlyniadau Caerdydd yn uwch yn y rhan fwyaf o ardaloedd o gymharu â'r blynyddoedd cynt, ac yn uwch na chyfartaleddau Cymru.

*Cwestiwn atodol – Cyng Chowdhury*
Gan ystyried yr effaith ddinistriol ar bobl ifanc, drwy gydol blynyddoedd y pandemig a'r hyn a ddilynodd, a wnaiff y Cynghorydd Merry gytuno â mi i gydnabod bod y canlyniadau ardderchog hyn yn tystio i ymroddiad nodedig, a gwaith caled y staff, y disgyblion, y teuluoedd sy'n eu cefnogi a'r gymuned ehangach.

*Ymateb – Cyng Merry*
Credaf ein bod yn ymwybodol nad yw'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod rhwydd i lawer o staff addysgu, eu disgyblion a'u teuluoedd, ac rwy'n cytuno bod y llwyddiant hwn yn deillio o'u hymdrechion i roi disgyblion, a llesiant disgyblion, yn gyntaf.

*Cyng Williams i'r Cyng Thorne*
Mae ffynonellau dibynadwy o fewn Cyngor Caerdydd wedi dweud wrthyf fod y Cyngor ar hyn o bryd yn chwilio am leoliadau i ddwyrain a gorllewin y ddinas fel safleoedd ymgeisiol ar gyfer lleiniau sipsiwn a theithwyr. A all yr Aelod Cabinet gadarnhau a rhestru pa safleoedd ymgeisiol sy'n cael eu hasesu fel lleoliadau i

sipsiwn a theithwyr yng Nghaerdydd, ac a ellir cynnwys yn yr ateb hefyd unrhyw safleoedd a aseswyd yn ddiweddar a chadarnhau a dybiwyd eu bod yn addas ar gyfer lleiniau sipsiwn a theithwyr?

*Ymateb – Cyng Thorne*
Bydd y Cyngor yn ymgynghori ar safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd gan dirfeddianwyr a datblygwyr i'w cynnwys o bosibl yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd, ochr yn ochr â'r strategaeth a ffafrir yn ddiweddarach eleni. Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn cyfrannu i'r asesiad o safleoedd ymgeisiol y bwriedir ei gychwyn ar ôl cwblhau'r broses ymgynghori. Ac rwy'n awgrymu y dylech ganfod ffynonellau eraill, oherwydd gallaf gadarnhau nad oes unrhyw safleoedd ymgeisiol wedi'u cyflwyno eto, i'w cynnig fel safleoedd sipsiwn a theithwyr yng Nghaerdydd. Er hynny, mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi safleoedd a fydd yn bodloni'r dystiolaeth o angen am safleoedd sipsiwn a theithwyr parhaol a thramwy. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau â Llywodraeth Cymru, ac mae gwaith yn parhau i sicrhau canlyniadau priodol, a byddaf yn rhoi'r newyddon diweddaraf i'r aelodau am ganlyniad y trafodaethau hyn wedi iddynt ddod i ben.

*Cwestiwn atodol - Cyng Williams*
Yn hollbwysig, roeddwn yn gofyn i'r Cynghorydd Thorne a oedd y Cyngor yn chwilio am safleoedd; mae fy ffynonellau yng Nghyngor Caerdydd bellach yn dweud wrthyf y chwiliwyd am safleoedd yn Nhrelái, yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, ac yn wir yn Ward y Cynghorydd Bradbury, felly a allwch fy sicrhau y bydd aelodau etholedig yn cael eu briffio ynghylch safleoedd ymgeisiol a gynigir, ac a allwch roi sicrwydd i'r Siambr hon fod Aelodau'r wardiau hynny yr effeithir arnynt eisoes wedi derbyn briffiau?

*Ymateb – Cyng Thorne*
Nid yw'r Aelodau wedi derbyn briffiau gan nad yw'r safleoedd hynny erioed wedi cael eu cyflwyno er trafodaeth, nac ar gyfer ymgynghoriad; felly, fel y dywedais o'r blaen, mae angen ichi siarad eto â'ch ffynonellau, ac efallai fod angen ichi gael ffynonellau newydd, gan ei bod hi'n amlwg eu bod wedi bod yn rhoi'r wybodaeth anghywir ichi.

*Robert Hopkins i'r Cyng Thomas*
Ac ystyried y gofyniad am brawf adnabod i bleidleiswyr yn yr etholiadau cyffredinol, beth mae'r Cyngor yn ei wneud er mwyn atal hyn rhag cael effaith niweidiol ar y nifer sy'n troi allan i bleidleisio yng Nghaerdydd? Ar sail y mathau o brawf adnabod a ganiateir, sut y gall y Cyngor osgoi sefyllfa lle mae'r gofynion hyn yn gwrthannog cyfranogiad ymhlith pleidleiswyr iau Caerdydd a phleidleiswyr mewn grwpiau mwy difreintiedig yn enwedig?

*Ymateb – Cyng Thomas*
I ateb y cwestiwn hwn Gynghorydd Hopkins, rwy'n siŵr eich bod chi, fel fi, yn teimlo bod hyn yn gyfystyr â defnyddio gordd i dorri cneuen. Pan holwyd Gweinidogion ynghylch nifer yr achosion o dwyll ymhlith pleidleiswyr yn yr etholiad cyffredinol diwethaf, dim ond chwech achos a welwyd mewn poblogaeth o 60 miliwn a mwy; felly mae hyn, i mi, yn dangos holl nodweddion ymgais i atal pleidleiswyr gan lywodraeth Dorïaidd sydd mewn sefyllfa argyfyngus, ac sy'n mynd i golli'r etholiad nesaf. Rwy’n bryderus iawn am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y nifer sy’n pleidleisio: ac rwy'n pryderu'n arbennig, oherwydd fel rydych chi wedi nodi yn eich cwestiwn, mae hyn yn fwy tebygol o effeithio ar bleidleiswyr iau ac, yn wir, grwpiau dan anfantais, er enghraifft gan nad oes ganddynt drwydded yrru na phasbort; neu yn wir, o'r hyn rwy'n

deall, sefyllfa od ar y naw lle bo cerdyn rheilffordd person hŷn yn dderbyniol fel prawf adnabod, ond lle nad yw cerdyn rheilffordd person iau yn gymwys. Tybed a allai rhai o'r bobl ar y meinciau gyferbyn esbonio hyn? Bydd y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ein gallu i liniaru'r effeithiau. Mae tîm gwasanaethau etholiadol y Cyngor wedi cychwyn ymgyrch ymgysylltu hirdymor i godi ymwybyddiaeth o'r gofynion newydd fel bod etholwyr cofrestredig yn mynd â phrawf adnabod gyda nhw, gan nodi mai ond ar gyfer etholiadau Senedd y DU a'r etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Drwy drugaredd, mae etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru, a arweinir gan Lafur. Yn ogystal â'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud, mae'r ymgyrch yr ydym yn ei chynnal yn hyrwyddo'r gwasanaeth ymgeisio am dystysgrif awdurdod pleidleisiwr ymhlith y rhai nad oes ganddynt fath addas o brawf adnabod gyda llun. Gellir ymgeisio am y tystysgrifau hyn ar-lein, drwy'r post neu wyneb yn wyneb yn swyddfa'r gwasanaethau etholiadol yn Neuadd y Sir. Bydd y gwasanaeth hwn yn helpu i sicrhau y gall pob etholwr gael gafael ar ryw fath o brawf adnabod gyda llun er mwyn pleidleisio yn yr etholiadau annatganoledig.

*Cwestiwn atodol – Cyng Hopkins*

Roeddwn yn mynd i ofyn i'r Arweinydd a oedd yn cytuno â mi mai ymateb i broblem ddychmygol oedd y gofyniad hwn am brawf adnabod i bleidleiswyr, sef twyll pleidleisio, na cheir rhyw lawer o dystiolaeth ohono os o gwbl, a gallaf weld ei fod o'r un farn. Ond er y bydd y dystysgrif adnabod pleidleisiwr am ddim ar gael, bydd yn rhaid gwneud cais amdani, ac ar wahân i'r pasbort neu'r drwydded yrru, mae'r rhestr o ddogfennau eraill a ganiateir, fel y mae'r arweinydd wedi awgrymu, wedi'i thargedu'n bennaf at rai dros 60 oed. Mae'r ffactorau hyn yn debygol iawn o beri rhwystr ar draws y grwpiau hynny sydd eisoes yn llai tebygol o bleidleisio, ac os bydd hynny'n digwydd ni fydd o fudd i ddemocratiaeth. Ar ben hynny, onid yw'n tanseilio datganiad y Cynghorydd Robson yn ystod y ddadl ar gynrychiolaeth gyfrannol fis Gorffennaf diwethaf na ddylem fod yn canolbwyntio ar weithredu system bleidleisio deg, ond y dylem yn hytrach fod yn canolbwyntio ar gynyddu'r niferoedd sy'n troi allan i bleidleisio?

*Ymateb – Cyng Thomas*

Rwy'n meddwl efallai fod y Cynghorydd Robson wedi syrthio i'w fagl ei hun wrth drafod y mater hwnnw. Rwyf wedi mynegi fy nheimladau - rwy'n cytuno â chi. Gallwch fod yn dawel eich meddwl, mae'r Cyngor yn cynnal ymgyrch, gan leihau unwaith eto'r hyn a fydd yn effaith sylweddol yn fy marn i, i gyrraedd y grwpiau hynny a elwir yn grwpiau anodd eu cyrraedd, a chan ddefnyddio gwaith partneriaeth, yn ceisio ymestyn ar draws rhanddeiliaid mewnol ac allanol i godi ymwybyddiaeth ynghylch y gofynion newydd hyn, ac mae ymgyrchoedd cenedlaethol hefyd yn cael eu cynnal i sicrhau bod neges glir a chyson yn cael ei chyfleu. Gadewch inni obeithio y bydd ychydig yn gliriach na rhai o'r negeseuon cymysg a gawsom gan ffigurau yn rhif 10 yn ystod pandemig Covid. Rwyf am dynnu sylw'r Aelodau hefyd at y papur briffio ysgrifenedig a roddais i'r aelodau ar 12 Ionawr, ac i ddilyn y papur hwnnw bydd briff yn cael ei roi i'r holl Aelodau ar 21 Chwefror gan dîm y Gwasanaethau Etholiadol.

*Cynghorydd Boes i'r Cyng Mackie*

Ac ystyried yr anawsterau a geir ar hyn o bryd wrth recriwtio therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, a all yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf am gynnydd yn gysylltiedig â hyn?

*Ymateb - Cyng Mackie*
Fel y gŵyr yr Aelodau, ceir prinder cenedlaethol o weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol cymwys, ac mae hyn, ynghyd â'r cynnydd yn y galw, yn rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru. Yng Nghaerdydd, rydym wedi gweithredu mewn sawl ffordd i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys monitro swyddi gwag a sicrhau eu bod yn cael eu hysbysebu ar y cyfle cyntaf. Mae swyddogion yn mynd i ddiwrnodiau agored a ffeiriau swyddi mewn prifysgolion i annog recriwtio. Rydym yn cefnogi ein gweithwyr cymdeithasol drwy symleiddio prosesau a lleihau gwaith papur; ac rydym hefyd yn datblygu dull aseswr y gellir ymddiried ynddo,sy'n galluogi swyddogion profiadol i gyflawni ystod ehangach o waith gyda'r oruchwyliaeth briodol. Bydd hyn yn sicrhau bod gan ein staff cymwysedig amser i ganolbwyntio ar achosion lle mae angen eu harbenigedd. Yn y cyfamser, mae ein gwasanaeth asiantaeth a reolir yn cynnal asesiadau gwaith cymdeithasol ar ein rhan. Mae cynlluniau tymor hwy yn cael eu datblygu i dyfu ein gweithlu ein hunain, ac mae amrywiaeth o fentrau'n cael eu hystyried, fel lleoliadau coleg noddedig, secondiadau mewnol a chynyddu nifer y lleoliadau cynnal myfyrwyr sy'n arwain at gynigion swydd ar ôl iddynt gymhwyso.

*Cwestiwn atodol – Cyng Boes*
Faint o weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol asiantaeth yr ydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd?

*Ymateb – Cyng Mackie*
Mae gen i nifer y swyddi gwag sydd gennym ar hyn o bryd; mae gennym 20 o swyddi gwag i weithwyr cymdeithasol, sef tua 15% o'r gweithlu cymwysedig, ac yn y gwasanaethau pobl hŷn mae'r ganran yn uwch, ar 20%. Gallaf gael hyd i'r atebion rydych chi wedi gofyn amdanynt a'u hanfon atoch.

*Cynghorydd Littlechild i'r Cyng Wild*
A allai'r Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynghylch gosod 24 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan newydd a addawyd yn ei ddatganiad i'r wasg ym mis Hydref?

*Ymateb – Cyng Wild*
Mae ugain o'r pwyntiau gwefru newydd bellach wedi'u gosod ac yn weithredol. Mae pedwar arall yn y camau olaf i'w gweithredu, yn dilyn gofyniad am newidiadau i ddyluniad y safle.

*Cwestiwn atodol – Cyng Littlechild*
Gan fy mod yn berchennog ar gerbyd trydan newydd fy hun, roeddwn wrth fy modd yn gweld y datganiad i'r wasg a dechreuais ddarllen y postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd pob un yn gofyn am wybodaeth hanfodol y mae ar bob perchennog car trydan ei hangen, sawl cilowatt yr awr fydd y pwyntiau gwefru, neu a fyddant yn bwyntiau gwefru gyda neu heb gwbl. Mi es i draw i Hyb Sblot a gweld eu bod yn bwyntiau gwefru heb gebl, ac yn saith cilowat, felly byddai'n cymryd wyth awr i'r pwyntiau gwefru atodol a addawyd wefru car. Pryd y bydd yr Aelod Cabinet yn addo y gallwn gael pwynt gwefru 50 cilowat dibynadwy gyda chebl, fel y gallwn wefru ein ceir yn gyflym drwy'r ddinas?

*Ymateb - Cyng Wild*
Rwy'n gobeithio nad oeddech chi'n sownd yn Sblot dros nos, er rwy'n siŵr y byddech wedi cael croeso cynnes, wrth ddod i lawr i'r rhan honno o'r ddinas. Mae gosod

pwyntiau gwefru trydan yn broses gymhleth iawn/ Dydyn ni ddim yn adeiladu gorsafoedd nwy i geir petrol, felly os yw pawb yn mynd i symud i geir trydan mae'n ddiddorol, ydych chi'n meddwl y dylai'r wladwriaeth gyflenwi'r holl drydan hwnnw - a fyddai'n wahanol iawn, bron yn gyfystyr â gwladoli'r system ynni, sy'n rhywbeth rydw i'n ei gefnogi'n llwyr; neu ai mater i'r sector preifat yw cyflymu peth o'r gwaith hwn. Rydym yn rhoi cynnig ar nifer o wahanol lwybrau. Os bydd pob car yn y ddinas yn symud i drydan, bydd angen newid aruthrol. Rydym yn cymryd peth o'n cyfrifoldeb, ond mae gofod y palmant hefyd yn brin. mae llawer o bobl heb fod eisiau gweld mwy o bethau ar balmentydd; rydym eisiau cael palmentydd mwy llydan a phethau eraill; mewn rhai achosion maen nhw'n achosi perygl; felly mae yna gymaint o gymhlethdodau. Rydym yn symud ymlaen â nifer o gynlluniau, gan osod mwy ar dir cyhoeddus; ond mae angen i'r sector preifat fynd i'r afael â llawer o hyn hefyd. A byddwn yn dychmygu y bydd y diwydiant ceir yn newid mewn gwahanol ffyrdd hefyd, ac wrth i bobl sy'n prynu'r ceir weithio allan sut y gallant eu gwefru ger eu cartrefi eu hunain.

*Cyng Berman i'r Cyng Weaver*
Pan fydd preswylydd yn cael ei gynghori gan wasanaeth C2C Cyngor Caerdydd i gysylltu â'i Gynghorydd i drefnu rhywbeth; a phan fydd yn gwneud hynny, bod y Cynghorydd yn cael ateb yn ôl iddo o'r maes gwasanaeth perthnasol yn cynnwys cyngor y dylai godi ymholiadau o'r fath drwy C2C yn y dyfodol; oni fyddech yn cytuno ei bod yn ymddangos fel pe bai rhywbeth o'i le ar ddarpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid y Cyngor?

*Ymateb – Cyng Weaver*
Nid yw'n bolisi gan C2C i gyfeirio preswylwyr i gysylltu â'u Cynghorydd onid yw'r preswylydd yn dweud ei fod eisoes wedi bod mewn cysylltiad uniongyrchol â'r Cynghorydd ac yn gofyn am y diweddaraf ynghylch mater penodol. Os yw'n dymuno gwneud cwyn ynghylch polisi, fe'u cynghorir i gysylltu â'r Aelod Cabinet neu'r cyfarwyddwr perthnasol i drafod y polisi hwnnw. Ar y cyfan, rwyf o'r farn fod ein staff yn darparu gwasanaeth ardderchog i breswylwyr Caerdydd, ond os oes pobl o'r farn fod lle i wella mae hi bob amser yn bwysig clywed am hynny; a phe baech yn fodlon anfon rhai o'r manylion ataf byddwn yn barod iawn i ofyn i swyddogion ymchwilio i'r sefyllfa dan sylw.

*Cwestiwn atodol – Cyng Berman*
Yn yr achos penodol hwn, rwy'n credu bod y preswylydd wedi'i synnu gan yr ymateb, yn hytrach na'i fod am wneud cwyn ddifrifol; ond gwraidd y mater dybiwn i yw fod gennym broblem o hyd gydag ethos gwasanaeth cwsmeriaid o fewn y Cyngor, oherwydd braidd yn rhy aml fel Cynghorwyr rydym yn ein cael ein hunain yn gorfod trosglwyddo ymatebion gan aelod o staff yn dweud nad oes modd gwneud rhywbeth. Beth yn fwy y gallem ei wneud i geisio mabwysiadu agwedd fwy cadarnhaol i geisio datrys problemau preswylwyr?

*Ymateb – Cyng Weaver*
Fel y dywedais, rwy'n meddwl bod gan nifer helaeth o'n staff agwedd gadarnhaol, a'u bod yn darparu gwasanaeth a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i bobl y ddinas. Ceir miloedd ar filoedd o ryngweithiadau rhwng ein preswylwyr a'r Cyngor bob dydd, ac i raddau helaeth iawn rwy'n credu bod ein staff yn gwneud gwaith gwych. Fel y dywedais, mae'n wirioneddol bwysig clywed gan unrhyw un sy'n meddwl bod lle inni wella, er mwyn inni allu dysgu a cheisio cyflwyno unrhyw newidiadau a allai fod eu hangen. Ond mewn gwirionedd, rwy'n sefyll yn gadarn â'r hyn y mae ein staff yn ei

wneud. Ychydig flynyddoedd yn ôl, gwnaethom ailwampio ein dull o ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid yn dilyn adroddiad gan bwyllgor craffu trawsbleidiol; roedd yr adroddiad yn wirioneddol wych, ac yn gydnaws iawn ag amcanion y weinyddiaeth. Yn amlwg, mae ychydig o flynyddoedd wedi mynd heibio ers lansio hwnnw; cawsom Covid yn y cyfamser; mae'n bwysig iawn inni ail-lansio neu adnewyddu hwnnw. Ond hoffwn ailadrodd fy niolch i'n staff sydd, dros fy mlynyddoedd lawer fel Cynghorydd, wedi rhoi cefnogaeth ragorol i ddinasyddion. Ond anfonwch y manylion ataf, gan y byddai'n dda gweld a oes unrhyw le inni wella.

*Cynghorydd Lay i'r Cyng Thomas*
Ac ystyried ein cais llwyddiannus am gyllid Codi'r Gwastad a gyhoeddwyd wythnos diwethaf ar gyfer elfen gyntaf Cledrau Croesi Caerdydd, a yw'r Arweinydd yn cytuno â mi fod y cyhoeddiad yn peri bod darparu Parcffordd Caerdydd, yn fy ward i fy hun, Trowbridge a Llaneirwg, yn bwysicach fyth fel terfynfa'r Cledrau Croesi yn y pen draw? A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw gynnydd a wnaed i sicrhau caniatâd ar gyfer y cynllun hwn?

*Ymateb – Cyng Thomas*
Cytunaf yn llwyr fod darparu Parcffordd Caerdydd yn hanfodol ar gyfer datblygiad economaidd a ffyniant, yn eich ward chi ac yn rhan helaeth o ddwyrain Caerdydd. Ac rwyf am ddatgan yn glir ei fod hefyd yn cynnwys elfen y parc busnes, nid elfen yr orsaf drenau'n unig. Mae'n rhyfeddol onid yw hi, mai gorsaf drenau Caerdydd yn ne'r ddinas yw'r orsaf drenau fwyaf ddwyreiniol yn y ddinas. felly erys bwlch sylweddol o hyd yn nhermau mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar reilffordd o rannau helaeth o ddwyrain y ddinas. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, ar ôl pasio'r cais drwy ein Pwyllgor Cynllunio, fod y mater wedi'i alw i mewn ac erbyn hyn o dan ystyriaeth Llywodraeth Cymru. Ond hoffwn eich sicrhau ein bod yn mynegi'n ddi-flewyn-ar-dafod farn y Cyngor hwn, y weinyddiaeth, rhanbarth ehangach y Ddinas ac, yn wir, pobl fel comisiwn n gwneud yn glir iawn farn y Cyngor hwn, y weinyddiaeth hon, y Dinas-ranbarth ehangach ac yn wir bobl fel comisiwn cyflenwi Burns, ei bod hi'n hollbwysig bwrw ymlaen â'r orsaf hon; gan nodi wrth gwrs fod Llywodraeth Cymru yn bartner ecwiti yn yr union un fenter.

*Cwestiwn atodol – Cyng Lay*
Mae'n wych clywed hynny. Mae fy mhreswylwyr yn Trowbridge a Llaneirwg wedi bod yn aros yn hir iawn i'r Parcffordd hwn ddwyn ffrwyth; ac maent yn gyffrous iawn, nid yn unig ynghylch y Parcffordd, ond hefyd ynghylch y cysylltiadau trafnidiaeth cyflym ar fysus, a fyddai hefyd yn mynd o amgylch dwyrain Caerdydd. Ond mae gwir angen y parc busnes cyfagos, fel y gwnaethoch gyfeirio ato'n briodol, ddenu miloedd o swyddi o ansawdd uchel i'r ardal. Pa waith sy'n cael ei wneud i ddenu busnesau i'r safle?

*Ymateb – Cyng Thomas*
Sonioch chi am drafnidiaeth gyflym ar fysus, ac rwy'n meddwl bod cyfle pwysig i integreiddio'r orsaf reilffordd â'r dull teithio hwnnw hefyd. Roedd y Cyng De'Ath yn sôn yn gynharach am anawsterau lleoliad presennol y cyfleuster Parcio a Theithio ym Mhentwyn; ond y gwir yw, wedi i'r orsaf newydd gael ei hadeiladu, byddai cyswllt bws i'w chysylltu tua'r dwyrain â'r rheilffordd yno yn drawsnewidiol, ac yn cael ei ddefnyddio gan breswylwyr Llanrhymni, wrth gwrs, dros y bont newydd y mae'r weinyddiaeth hon yn ei hadeiladu yno. Yn yr un modd, ceir cynlluniau am gyswllt bws tua'r dwyrain o Laneirwg tuag at Gasnewydd hefyd, sy'n ddimensiwn arall i integreiddio'r gyrchfan honno â'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Ac rwy'n

gwybod am bob math o sgyrsiau sy'n digwydd, o dan arweiniad y datblygwr, ynghylch y math o fewnfuddsoddiadau y gellid eu sicrhau, yn enwedig mewn diwydiannau fel gwyddorau bywyd, fel lled-ddargludyddion cyfansawdd, lle mae gan Brifddinas-ranbarth Caerdydd fantais gystadleuol. Ceir enghreifftiau gwych hefyd - edrychwch ar Gaeredin, Green Park ar gyrion Llundain - lle ceir y math hwn o barc busnes arddull campws. Nid yw'r rhain yn bodoli yn Ne Cymru ar y raddfa honno, a gallent greu nifer sylweddol o swyddi â chyflogau uchel o fewn pellter cerdded i'ch ward, ac o fewn taith saith munud o ganol dinas Caerdydd.

*Cyng Michael i'r Cyng Thomas*
A yw’r Arweinydd yn cytuno â mi fod y cyhoeddiad am gyllid Codi'r Gwastad, y ceir arian cyfatebol ar ei gyfer gan Lywodraeth Cymru, yn newyddion gwych i Gaerdydd, gan ddatgloi cynlluniau sydd wedi bod ar droed ers 20 mlynedd, am gynllun y Cledrau Croesi o ogledd orllewin Caerdydd i Laneirwg yn y dwyrain?

*Ymateb – Cyng Thomas*
Gynghorydd Michael, a chithau'n gynghorydd ers amser hir rwy'n siŵr y byddwch yn gweld y tebygrwydd rhwng cynllun Cledrau Croesi ac elfennau eraill y strategaeth trafnidiaeth o fewn Partneriaeth Trafnidiaeth Caerdydd a oedd yn eu lle cyn 2004, ond na chawsant eu datblygu gan y weinyddiaeth ddilynol ar ôl yr etholiad hwnnw. Credaf fod y llwyddiant hwn nawr yn ein galluogi i wireddu uchelgais sydd wedi bod yn yr arfaeth ers 20 mlynedd, i greu system fetro hyfyw i Gaerdydd gyfan. Ond yn arbennig, fel yr oeddwn yn ei ddweud yn gynharach wrth y Cynghorydd Lay, sy’n gwasanaethu’r cymunedau hynny mewn wardiau fel fi, Sblot, Tremorfa, Tredelerch, a Llanrhymni a Llaneirwg, sy’n derbyn gwasanaeth gwael o ran seilwaith rheilffordd ar hyn o bryd; er bod gennym, wrth gwrs, linell y Great Western yn torri drwy ein cymunedau. Mae'n gyfle gwych felly, yn gaffaeliad ardderchog i Gaerdydd yn fy marn i, ac mae cychwyn cyflawni'r cam cyntaf nawr yn destun cyffro mawr.

*Atodol – Cyng Michael*
Dychmygwch, pe bai’r cynllun gwreiddiol wedi cael ei roi at ei gilydd a’i gyflawni 20 mlynedd yn ôl, dychmygwch y newidiadau y byddai’r Ddinas hon wedi’u gweld. Cefnwyd arno gan nad oedd gan yr Arweinydd ar y pryd unrhyw weledigaeth. Yr Arweinydd oedd Rodney Berman, a wnaeth i ffwrdd â'r cynllun, gyda chefnogaeth y Torïaid. Rwyf wedi sylwi ar newid cynnil i'r hyn y maent yn ei ddweud. Maent bellach yn dweud eu bod o blaid y Cledrau Croesi; ac rwy'n croesawu'r newid hwnnw. Felly a wnaiff yr Arweinydd gytuno bod eu brwdfrydedd newydd yn rhywbeth i'w groesawu? A fyddech yn cytuno â mi fod brwdfrydedd newydd y Democratiaid Rhyddfrydol dros ailgylchu i'w groesawu gan eu bod newydd ailgylchu hen arweinydd blinedig?

*Ymateb – Cyng Thomas*
Rwy'n sylwi bod rhai o'r jôcs yn cael eu hailgylchu hefyd, Gynghorydd Michael, ac mae hynny'n dda iawn i'w weld. Rydym wedi cael digonedd o gwestiynau yn y Siambr hon heddiw ac, ar sawl achlysur, cwestiynau am drafnidiaeth gyhoeddus yn y ddinas a materion yn ymwneud â thagfeydd. Rwy'n meddwl ein bod ni i gyd am weld y gwelliant hwnnw, ac rwy'n meddwl eich bod chi'n gwybod, ein bod ni'n talu'r pris am ddiffyg buddsoddi, am ddiffyg gweledigaeth. Yn ôl pan gafodd y Bartneriaeth Trafnidiaeth ei diddymu yn 2004, rwy'n credu wrth inni edrych yn ôl ar y cyfnod hwnnw yn natblygiad y ddinas, y byddwn yn gweld mewn blynyddoedd i ddod mai dyna oedd y cyfnod pan gollwyd momentwm yn adfywiad y ddinas, a oedd wedi cael ei adeiladu gan weinyddiaethau Llafur olynol. Cefnu ar ein Cynllun Trafnidiaeth; safonau'n dirywio yn ein hysgolion; gwyddom am y miloedd o blant a gafodd gam, a

adawodd ein hysgolion fel NEETs. Ac rydym yn gwybod sut, mewn cyfnod o ddigonedd, y cafodd arian ei wastraffu ar brosiectau anwes: £100,000 y flwyddyn ar arddangosfa Dr Who; Cymhorthdal o £1 miliwn y flwyddyn i'r pwll nofio; gan fethu trwsio'r to tra'r oedd yr haul yn tywynnu; a'r benthyciad o £1 miliwn i glwb criced Morgannwg yr oedd yn rhaid i'r weinyddiaeth Lafur ddilynol ei ddileu. Nid oedd felly'n gyfnod gwych i'n dinas.Diolch byth ein bod bellach mewn trydydd tymor hanesyddol o weinyddiaeth Lafur sydd â'r penderfyniad i wneud y penderfyniadau beiddgar sydd eu hangen ynghylch trafnidiaeth ac, yn wir, pob agwedd arall ar fywyd y ddinas er budd ein trigolion.

*Cyng Wong i'r Cyng Merry*
Disgwylir y bydd y Felodrom arfaethedig sydd yn rhan o'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, gael ei ariannu'n rhannol o gyllideb addysg Cyngor Caerdydd. A all yr Aelod Cabinet dros Addysg esbonio pam mae'r gyllideb addysg yn cael ei defnyddio i gyfrannu at y felodrom arfaethedig?

*Ymateb – Cyng Merry*
Mae'r cyfraniad ariannol at adleoli'r trac beicio wedi'i gynnwys yn rhan o gyfanswm cost rhaglen gyllideb yr ysgolion. Mae'r gyllideb refeniw ar gyfer addysg mewn ysgolion yn ffrwd ariannu ar wahân a gaiff ei hadolygu'n flynyddol yn rhan o gyllideb gyffredinol y Cyngor. Nid oes unrhyw safleoedd eraill ar gael, ond pe bai'r Cyngor wedi canfod safle arall a oedd o faint digonol, a oedd ar gael ac a allai gynnwys ehangiad yr ysgol, byddai hynny wedi bod yn gost i'r Cyngor ei thalu drwy raglen gyllideb yr ysgolion, fel y digwyddodd yn achos prosiectau eraill. Mae'r cynnig i gael adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caerdydd yn ddibynnol ar adleoli'r trac beicio er mwyn cydymffurfio â'r gofynion arwynebedd a nodwyd yng nghanllawiau bwletin adeiladu'r gyllideb ar gyfer ysgolion uwchradd newydd. Mae'r cyfraniad at adleoli'r trac beicio felly'n cynrychioli defnydd darbodus o'r adnoddau ariannol yn rhaglen gyllideb yr ysgolion: er mwyn darparu cyfleusterau dysgu o'r 21ain ganrif i ddysgwyr yn Ysgol Uwchradd Cathays; er mwyn darparu lleoedd ysgol y mae eu angen mawr amdanynt; er mwyn darparu lleoedd ADY; i ddarparu adeilad newydd yn lle adeilad ysgol sydd mewn cyflwr C; ac mewn gwirionedd i ddarparu caeau chwarae i'r ysgol honno, fel y ceir ym mhob ysgol uwchradd arall yn y ddinas.

*Cwestiwn atodol – Cyng Wong*
A yw'r Aelod Cabinet yn ystyried bod y cyfraniad ariannol hwnnw, a fydd o gymorth i ddarparu ysgol newydd o'r radd flaenaf a Felodrom newydd o'r radd flaenaf, yn ganlyniad da i bobl ifanc ar draws y ddinas?

*Ymateb – Cyng Merry*
Yn amlwg, mae'r Cabinet yn parhau i wrando'n ofalus iawn ar unrhyw fynegiant o bryder, ond mae angen pwysleisio'r ffaith, pe bai safleoedd eraill ar gael, y byddai'r safleoedd hynny'n sicr wedi costio mwy o arian, o gymharu â symud y trac beicio. Credaf y dylai pob Aelod yn Siambr y Cyngor hwn ystyried yn ofalus, os oes angen safle ar ysgol newydd sy'n cael ei ddefnyddio at ddefnydd cymunedol amgen arall, a ydynt yn meddwl ei bod yn briodol i'r Adran Addysg ystyried sut y gall symud y cyfleuster hwnnw. Os ydynt yn awgrymu y dylai addysg allu meddiannu safleoedd, heb unrhyw gost, ar draws y ddinas, rwy'n credu y byddai hynny'n rhywbeth y gallent edifar yn ei gylch yn y dyfodol. Ond bydd yn creu manteision i blant ar draws y ddinas o ran darparu lleoedd ysgol ychwanegol y mae angen mawr amdanynt ar adeg pan fo'n hysgolion uwchradd o dan bwysau. Mae pob un ohonom yn gwybod y pryderon sydd gennym yn gysylltiedig â'n darpariaeth ADY, ac rwy'n pitïo'n arw fod aelodau'r

wrthblaid yn rhoi cyn lleied o bwysigrwydd i'r angen i ddarparu ysgol uwchradd â chaeau chwarae.

*Cyng Wong i'r Cyng Merry*
A all yr Aelod Cabinet dros Addysg roi sylwadau ar yr enghreifftiau o arfer gorau addysgol o ysgolion Caerdydd a amlygwyd yn adroddiad blynyddol diweddar Estyn?

*Ymateb – Cyng Merry*
Roeddwn yn falch iawn o weld enghreifftiau o arfer gorau o ysgolion Caerdydd yn cael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol Estyn. Amlygwyd Ysgol Uwchradd Cathays ddwywaith, unwaith o dan adran am arweinwyr ysgol yn dangos ymrwymiad llwyr i gynhwysiant a safonau uchel. I ddyfynnu: “Mae gwaith yr ysgol yn cael ei danategu gan genhadaeth yr ysgol i roi cyfle i bawb, ac mae gan y Pennaeth weledigaeth glir ar gyfer codi dyheadau, ehangu gorwelion a chynyddu cyflawniad a llesiant pob disgybl hyd yr eithaf." Cafodd Cathays ei chynnwys hefyd fel astudiaeth achos ar gyfer datblygu’r ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn yr ysgol. Soniwyd hefyd am uned cyfeirio disgyblion Bryn y Deryn, am ei diwylliant nodedig a'i hethos o gefnogi llesiant ar draws y ddinas. Ar ben hynny, cafodd y Cyngor gydnabyddiaeth am gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Canfu'r arolygwyr fod y cyngor yn darparu lefel uchel o gefnogaeth i geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n cyrraedd yr ardal. Ar wahân i'r adroddiad hwn, mae’n werth nodi hefyd fod Estyn wedi gofyn am astudiaethau achos arfer da ysgrifenedig gan bron i hanner yr holl ysgolion yng Nghaerdydd a arolygwyd ers ailgyflwyno arolygiadau yn dilyn y pandemig.

*Cwestiwn atodol – Cyng Wong*
Fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Cathays rwy’n falch dros ben o gydnabyddiaeth Estyn o waith rhagorol yr ysgol wrth fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ac anfantais. Mae Ysgol Uwchradd Cathays yn ysgol hynod lwyddiannus amlddiwylliannol, amlieithog ac aml-ffydd. A yw'r Aelod Cabinet yn cytuno bod adeilad ysgol newydd i Ysgol Uwchradd Cathays yn hollbwysig er mwyn parhau i helpu ein cymunedau amrywiol ar draws y ddinas i lwyddo ym myd addysg?

*Ymateb - Cyng Merry*
Rwy'n meddwl bod y Cyngor wedi cyfleu ei hun yn glir yn y sail resymegol a gyflwynodd dros adeiladu ysgol newydd i Cathays. Yr oedd mewn lleoliad canolog ar adeg pan fo pwysau ar leoedd mewn ysgolion uwchradd, ac yn galluogi darpariaeth ychwanegol yn y lleoliad mwyaf cyfleus i ddisgyblion ar draws y ddinas. Rydym yn glir iawn ynghylch yr angen dybryd am leoedd ADY yn y ddinas, ac mae hynny wedi cael ei gadarnhau mewn nifer o adroddiadau addysg; ac nid wyf wedi gweld unrhyw beth hyd yma i danseilio'r rhesymau dros wneud y cynnig yn lle cyntaf, hyd yn oed wrth inni barhau i wrando ar unrhyw adborth a gawn.

*Cyng Lewis i'r Cyng Goodway*
Mae datblygiad yr arena yn Butetown yn cynnig cyfle am swyddi lleol i bobl leol, yn y cam adeiladu ac wrth i'r ganolfan gael ei gweithredu. A all yr Aelod Cabinet roi gwybod pa gamau a gymerir i sicrhau bod preswylwyr lleol, yn enwedig y rhai hynny o grwpiau tangynrychioli digg, yn ymwybodol o swyddi gwag ac yn teimlo'n hyderus ac yn barod i ymgeisio am y rolau hynny?

*Ymateb – Cyng Goodway*
Mae'r Cynghorydd yn gwbl gywir wrth ddweud y bydd datblygiad yr Arena yn creu cyfleoedd pwysig am swyddi i bobl leol. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod pobl leol

wedi clywed hynny'n rhy aml ers dros ddeng mlynedd ar hugain, a heb weld eu huchelgeisiau'n cael eu gwireddu. Rwyf felly am sicrhau bod y Cyngor, y datblygwr, y cwmnïau adeiladu, gweithredwr yr arena a'r gymuned yn cydweithio i sicrhau y gallwn wneud trefniadau i sicrhau'r canlyniadau yr ydym am eu gweld. Er mwyn rhoi hyder i'r Cynghorydd yn yr ymrwymiad hwnnw, gallaf gadarnhau bod tîm I Mewn i Waith y Cyngor eisoes wedi ymrwymo i weithio gyda'r datblygwyr a'r gweithredwyr i sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu hyrwyddo'n lleol, ac i gynorthwyo pobl leol i ymgeisio am swyddi. Bydd y tîm I Mewn i Waith yn gweithredu'n effeithiol fel asiantaeth gyflogi ar gyfer datblygiad yr Arena, gyda chylch gorchwyl i sicrhau bod budd economaidd yr Arena yn cael eu profi yn lleol. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau fel ffeiriau swyddi lleol o fewn y ward, a rhaglenni hyfforddi pwrpasol, ochr yn ochr â gweithgarwch targededig i ymgysylltu â chymunedau yn Butetown yn ogystal â wardiau cyfagos. Mae'r tîm I Mewn i Waith eisoes wedi sefydlu swyddogion ymgysylltu â'r gymuned a fydd yn datblygu'r cysylltiadau hyn, a bydd tîm Ymrwymiad Caerdydd yn hyrwyddo cyfleoedd mewn ysgolion lleol. Bydd y gwaith hwn hefyd yn targedu grwpiau tangynrychioledig yn benodol.

*Cwestiwn atodol – Cyng Lewis*
Diolch ichi Gynghorydd Goodway, am eich ymateb cynhwysfawr ynghylch yr angen i sicrhau bod pobl leol yn cael cyfleoedd uniongyrchol am swyddi yn yr arena. Cwestiwn arall yr hoffwn ei ofyn yw a fyddant yn sicrhau nad y cyfleoedd hyfforddi arferol ar gyfer y swyddi adeiladu fydd yn cael eu cynnig; ond hyfforddiant ar gyfer rolau mwy unigryw fel technegwyr sain a rheoli llwyfan, a all sicrhau bod swyddi proffesiynol parhaol ar gael, gan uwchsgilio pobl yn yr ardal.

*Ymateb – Cyng Goodway*
Byddant, Arglwydd Faer, gallaf gadarnhau hynny. Mewn sgyrsiau sydd eisoes wedi'u cynnal yn cynnwys Arweinydd y Cyngor â Live Nation, rwyf wedi clywed yr ymrwymiad hwnnw gan y cwmni, eu bod am sicrhau bod pobl ifanc nid yn unig yn gallu hyfforddi i weithio yn y lleoliad neilltuol hwn; ond oherwydd cyrhaeddiad rhyngwladol Live Nation, maent yn meddwl y gallem gyrraedd sefyllfa lle gallai pobl a dyfodd i fyny yng Nghaerdydd fod yn gweithio yn Los Angeles ac mewn lleoliadau eraill ar lefel uchaf eu trwydded. Hoffwn ddweud fod hyn yn gyfle gwirioneddol i gyflawni er budd pobl Butetown a'r wardiau cyfagos. Oherwydd rwy'n ymwybodol, a minnau wedi bod yma mor hir, yn rhy hir efallai yn ôl rhai, fod y bobl yma wedi cael cam; yn gyntaf gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, ac wedyn gan awdurdodau olynol yn y ddinas. Daeth y pwynt isaf pan gynigiodd Llywodraeth Lafur Cymru i weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol yn y Cyngor hwn i dderbyn £17 miliwn er mwyn osgoi'r angen i ymdrin â'r wal honno sy'n mynd ar hyd Stryd Bute. Roedd hynny'n anfaddeuol. Yr unig beth y gallaf ddweud fy mod yn falch ohono, yw na fyddai Llywodraeth Cymru erioed wedi gwneud y fath gynnig i mi.

10 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys

11 : AELODAETH O BWYLLGORAU

Derbyn enwebiadau a phenodi i swyddi gwag cyfredol y

pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad ac yn unol â'r dyraniad seddi a gymeradwywyd

a dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i dderbyn enwebiad a phenodi i’r sedd wag ar y Pwyllgor, yn unol â dymuniadau Grwpiau Gwleidyddol, fel y nodir yn Nhabl A ac ar y Daflen Newidiadau.

12 : RHESTR TALIADAU'R AELODAU

Gofynnir am gymeradwyaeth i newid y dyletswyddau cymeradwy sydd wedi'u cynnwys yn Rhestr Taliadau Aelodau Cyngor Caerdydd, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor i:

a) gymeradwyo'r rhestr ddiwygiedig o "Ddyletswyddau Cymeradwy" yn Atodlen 2 o Restr Taliadau'r Aelodau 2022/23, fel yr oedd wedi'i chynnwys yn **Atodiad A;** a

b) mabwysiadu Rhestr Taliadau'r Aelodau 2022-23 ddiwygiedig fel yr oedd wedi'i hatodi yn **Atodiad B** ar unwaith, a gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gyflwyno'r hysbysiad gofynnol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; ac

awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiweddaru Rhestr Taliadau'r Aelodau yn Rhan 6 y Cyfansoddiad yn unol â hynny.

13 : PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL I GYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION

Penodi Llywodraethwyr Ysgol Awdurdod Lleol i lenwi swyddi gweigion

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn CYTUNO, yn unol ag argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol, i gymeradwyo penodiadau newydd llywodraethwyr Awdurdod Lleol i gyrff llywodraethu'r ysgolion, fel y nodir yn Atodiad 1 ac Atodiad 2, pob un am gyfnod o 4 blynedd o ddyddiad y penodiad.

14 : PENDERFYNIAD SWYDDOG - RHIF 24

Nododd y Cyngor y Penderfyniad.

15 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 17 (f) Cwestiynau Ysgrifenedig a dderbyniwyd i’w hystyried ynghyd â’r ymatebion fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm